Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Nifer: 47/2015

www.cymru.gov.uk

# Hyb Plant Coll Gwent

## Gwerthusiad ffurfiannol: Crynodeb o Ganfyddiadau ac Argymhellion

Hyb Plant Coll Gwent: Gwerthusiad Ffurfiannol: Crynodeb O Ganfyddiadau Ac Argymhellion

Awdur: Cordis Bright

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Jackie McDonald
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1193
E-bost: jackie.mcdonald@wales.gsi.gov.uk
Ymchwil Gymdeithasol Llwodraeth Cymru, 3 Medi 2015
ISBN: 978-1-4734-4533-8
© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Tabl cynnwys

Geirfa……………... ........................................................................................2
1. Nodau ac amcanion yr ymchwil..........................................................3
2. Methodoleg ........................................................................................4
3. Prif ganfyddiadau ...............................................................................5
4. Casgliadau .......................................................................................28
5. Argymhellion ....................................................................................29
6. Atodiad 1: Astudiaethau achos yr ymgynghoriad ..............................34
7. Atodiad 2: Model rhesymegol ...........................................................58

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Crynodeb o gyfarfodydd ôl-drafod bob mis ........................................12

## Geirfa

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| MIRAF | Ffurflen Asesu Risg Unigolyn Coll |

# 1. Nodau ac amcanion yr ymchwil

1.1 Comisiynwyd Cordis Bright gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o brosiect Hyb Plant Coll Aml-asiantaeth Gwent (“yr Hyb”). Cynhelir y gwerthusiad mewn tri cham: sefydlu, ffurfiannol a chrynodol. Dyma’r adroddiad ffurfiannol.

1.2 Nodau ac amcanion yr adroddiad ffurfiannol hwn, fel y nodwyd ym manyleb gwerthuso Llywodraeth Cymru, yw:

- archwilio gweithrediad y prosiect i asesu a yw’r prosiect yn gweithredu yn ôl y bwriad;
- edrych i ba raddau mae’r prosiect yn cyfrannu at y canlyniadau bwriedig a sut;
- dysgu gwersi ar gyfer y prosiect a/neu ar gyfer cyflwyno’n ehangach/yn y dyfodol.

## 2. Methodoleg

2.1 Yng ngham sefydlu'r gwerthusiad hwn datblygwyd model rhesymegol a oedd yn nodi'r ddamcaniaeth newid sy'n sail i'r Hyb, yn cynnwys ei mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a'r effeithiau a'r canlyniadau bwriedig. Datblygwyd hyn trwy: adolygiad o ddogfennau, adolygiad o lenyddiaeth arfer gorau ac ymgynghoriad gyda'r Hyb. Yn y cam ffurfiannol hwn o'r gwerthusiad rydym wedi datblygu system o ddulliau cymysg i brofi i ba raddau mae damcaniaeth newid yn gweithio'n ymarferol.

2.2 Roedd y dulliau cymysg a ddefnyddiwyd yn y cam ffurfiannol hwn yn cynnwys: adolygiad o ddogfennau a data bwrdd gwaith fel cylch gorchwyl a Phrotocol Gwent, wyth cyfweliad wyneb-yn-wyneb â staff yr Hyb; 16 cyfweliad â rhanddeiliaid fel gweithwyr cymdeithasol, staff addysg a swyddogion yr heddlu; wyth astudiaeth achos ymgynghori y gellir eu gweld yn Atodiad 1 (yn cynnwys grwpiau ffocws aml-asiantaeth a chyfweliadau wyneb-yn-wyneb gyda phobl ifanc sydd wedi bod ar goll a'u rhieni/gofalwyr); ac astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.[1]

[1] Mae astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n ddull gwerthuso arloesol a gynlluniwyd gan Cordis Bright sy'n cyfleu'r cyd-destun, yr ymyriadau a'r cynnydd a wnaed yn erbyn canlyniadau bwriedig.

## 3. Prif ganfyddiadau

### Amcanion a sail resymegol yr Hyb

*Nodau ac amcanion*

3.1 Dangosodd yr adolygiad o ddogfennau a'r cyfweliadau â staff yr Hyb mai'r nodau a'r amcanion canlynol sy'n sail i waith yr Hyb:

- gwella bywydau a chanlyniadau plant sy'n mynd ar goll
- lleihau nifer yr achosion o blant yn mynd ar goll
- lleihau achosion ailadroddus o blant coll neu absennol
- atal plant rhag mynd ar goll
- lleihau'r tebygolrwydd bod plant sy'n mynd ar goll yn troseddu neu'n cael profiad o drosedd
- lleihau'r galw diangen ar wasanaethau eraill a sicrhau gweithio cost-effeithiol
- sicrhau bod mwy o achosion o blant coll yn cael eu cofnodi
- datblygu syniadau ar gyfer dulliau gweithio mwy effeithlon
- gwella gwasanaethau'n barhaus i ddinasyddion Gwent
- gwella gwaith aml-asiantaeth a rhannu gwybodaeth
- profi'r model rhannu gwybodaeth ac asesu risg aml-asiantaeth.

3.2 Roedd y cyfweliadau â'r staff a'r rhanddeiliaid yn awgrymu mai prif nod yr Hyb oedd gwella canlyniadau i blant. Mae hyn yn cyd-fynd â damcaniaeth newid arfaethedig yr Hyb a'r model rhesymegol a ddatblygwyd yn ystod cam sefydlu'r gwerthusiad, a welir yn Atodiad 2.

3.3 Roedd mwyafrif aelodau staff yr Hyb a'r rhanddeiliaid yn cytuno bod nodau ac amcanion yr Hyb yn briodol ac yn dangos llawer o ymrwymiad i'r rhain, sy'n awgrymu bod rhanddeiliaid proffesiynol yn cael eu cynnwys yn effeithiol yng ngwaith yr Hyb.

*Y sail resymegol dros yr Hyb*

3.4 Roedd y dogfennau a adolygwyd yn dangos bod yr Hyb wedi'i sefydlu i ddatrys problemau oedd wedi'u diffinio'n glir a nodwyd mewn perthynas â gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, fel cyfathrebu annigonol rhwng asiantaethau a diffyg dealltwriaeth am y rhesymau pam mae plant yn rhedeg i ffwrdd.

3.5 Disgrifiodd y staff a'r rhanddeiliaid y sail resymegol dros yr Hyb mewn ffordd debyg i'r hyn a amlinellwyd yn y dogfennau a adolygwyd. Dywedwyd mai amcan yr Hyb yw llenwi bwlch mewn gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, yn enwedig o ran darparu gwybodaeth am blant coll gyda'r nod o wella ymarfer ymysg rhanddeiliaid i helpu i wella canlyniadau plant sy'n mynd ar goll, neu sydd mewn perygl o fynd ar goll. Mae hyn yn dangos bod rhanddeiliaid yr Hyb yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn deall y sail resymegol dros weithredu'r Hyb.

**Gwaith yr Hyb**

3.6 Prif brosesau a gweithgareddau'r Hyb yw: nodi achosion o blant coll neu absennol y mae'r heddlu wedi'u hysbysu amdanynt; casglu gwybodaeth am y plentyn drwy gronfeydd data aml-asiantaeth a/neu ymgynghori â gweithwyr proffesiynol eraill, rhieni neu ofalwyr; cynnal neu ddiweddaru Ffurflen Asesu Risg Unigolyn Coll (MIRAF) ar bob plentyn sydd wedi'i gofnodi fel plentyn ar goll; cytuno ar gynllun gweithredu ac ymateb cyffredin; rhannu'r wybodaeth hon a chynnal cyfweliadau ôl-drafod a gwaith cyfryngu, lle bo'n briodol.

3.7 Cwblhau'r MIRAF a chynnal cyfweliadau ôl-drafod oedd y gweithgareddau a nodwyd fwyaf fel gwaith yr Hyb gan staff a rhanddeiliaid mewn cyfweliadau. Roedd defnyddio'r MIRAF yn cael ei ystyried yn gyflawniad allweddol gan yr Hyb, yn enwedig o ran hwyluso trefniadau rhannu gwybodaeth a gwaith aml-asiantaeth. Roedd y cyfarfodydd ôl-drafod yn cael eu hystyried yn gadarnhaol gan eu bod yn: sicrhau bod plant yn cael gwrandawiad a llais; yn annog plant i ddatblygu gwybodaeth bwysig; ac yn ddefnyddiol ar gyfer casglu gwybodaeth.

3.8 Mae cwblhau'r MIRAF yn cynnwys: casglu gwybodaeth berthnasol gan weithwyr proffesiynol, rhieni/gofalwyr ac o gronfeydd data i asesu risg (yn cynnwys risg gyffredinol, tebygolrwydd o fynd ar goll a chanlyniadau bod ar goll), rhannu gwybodaeth, asesiad risg ar y cyd a chynlluniau drwy borth ar-lein.

3.9 Awgrymodd lleiafrif o randdeiliaid y gellid diweddaru'r MIRAF yn fwy cyson. Mae dogfennau'r Hyb yn datgan bod y MIRAF i'w ddiweddaru ar ôl i blentyn fynd ar goll bum gwaith neu fwy mewn un mis.[2] Efallai y byddai'n ddefnyddiol i staff yr Hyb (a rhanddeiliaid o bosibl) gael dogfen brotocol ynghylch pryd a sut y dylid diweddaru'r MIRAF er mwyn sicrhau arfer cyson ymysg staff yr Hyb.

3.10 Dangosodd dadansoddiad o'r MIRAF y gallai'r categorïau gael eu diffinio'n gliriach. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i staff yr Hyb (a rhanddeiliaid o bosibl) gael dogfen brotocol ynghylch y diffiniadau o'r categorïau risg i sicrhau bod asesiadau risg cyson yn cael eu cwblhau.

3.11 Mae cynnal cyfweliadau ôl-drafod yn rhan allweddol o waith yr Hyb hefyd. Eu nod yw:

- Trefnu bod rhywun ar gael i wrando ar y plentyn
- rhoi gwybodaeth, cyngor, arweiniad ac eiriolaeth gyffredinol i'r plentyn
- casglu gwybodaeth i'w gofnodi ar y MIRAF
- canfod y rhesymau pam aeth y plentyn ar goll.

3.12 Mae dogfennau'r Hyb yn datgan bod tîm yr Hyb yn ystyried pob plentyn sydd wedi'i gofnodi fel plentyn ar goll neu absennol ar gyfer y gwasanaeth ôl-drafod.[3] Mae'n datgan bod cymhwysedd yn cael ei bennu drwy 'ymchwilio i systemau a hidlo'r rhai lle mae yna bryderon a risgiau a nodwyd neu botensial o niwed'. Dywedodd yr Hyb wrth Cordis Bright ei fod yn ceisio darparu o leiaf un cyfarfod ôl-drafod i blant sydd wedi mynd ar goll ac y bydd yr Hyb yn penderfynu ar gyfarfodydd ôl-drafod pellach yn ôl y lefel o risg. Nid oedd hi'n glir bob amser sut roedd y broses hon yn gweithio yn ymarferol. Byddai paratoi protocolau a chanllawiau ysgrifenedig ar gyfarfodydd ôl-drafod a gwneud penderfyniadau yn helpu i sicrhau arferion cyson a thryloyw yn yr Hyb.

---

[2] Adroddiad briffio'r Bwrdd Rhagfyr

[3] Adroddiad briffio'r Bwrdd Rhagfyr

3.13 Un o agweddau arloesol allweddol dulliau gweithredu'r Hyb yw ei bod yn ymdrin â phlant coll mewn ffordd wahanol i'r hyn a gynigir yn y Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Plant Coll (2011), yn enwedig ei ddiffiniad a'i ddefnydd o'r termau 'coll' ac 'absennol' a'i darpariaeth ar gyfer gwaith aml-asiantaeth. Amcan protocol arloesol Gwent yw 'dileu gwastraff yn y broses, lleihau risg i blant a phobl ifanc a sicrhau mwy o gysondeb yng ngwaith yr holl asiantaethau.'

3.14 Mae'r Hyb yn hyrwyddo defnydd o'r MIRAF a chydymffurfiaeth â Phrotocol Gwent ymysg gweithwyr proffesiynol drwy ddarparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol amrywiol sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll. Mae hyn yn cynnwys: Protocol Gwent yn gweithio gyda phlant coll; arferion adrodd priodol; defnydd o'r MIRAF; a defnydd o wybodaeth aml-asiantaeth. Mae'r Hyb hefyd yn darparu pecynnau hyfforddi wedi'u teilwra i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol amrywiol.

3.15 Soniodd staff a rhanddeiliaid fod yr Hyb yn darparu gwasanaethau yn gysylltiedig â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant i bobl ifanc, cwnsela ar ôl profedigaeth ac yn cyfrannu at y broses cynllunio gofal, nad ydynt wedi'u cofnodi ym 'mhrif brosesau' yr Hyb.

3.16 Adeg y cyfweliadau dywedodd y staff nad oedd yr Hyb wedi dechrau hwyluso cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau, darparu gweithdai i bobl ifanc a rhieni/gofalwyr na chyfrannu at raglenni addysg ysgolion. Fodd bynnag, mae dogfennau'n dangos bod cynlluniau ar droed ar gyfer rhaglen 'Addysg Cymheiriaid' ym mis Rhagfyr 2014 (gweler adran 8.3.2 yr adroddiad llawn). Mae hyn yn awgrymu bod rôl yr Hyb fel ffynhonnell atal bwysig yn faes sydd wedi dechrau cael ei ddatblygu'n ddiweddar ac y gellid ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol.

3.17 Mae'n amlwg mai amcan y prosesau a'r gweithgareddau allweddol yw mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll a nodwyd cyn sefydlu'r Hyb, fel yr ystyriwyd yn adran 5.3 yr adroddiad llawn, fel y rhai sy'n ymwneud â

gwaith aml-asiantaeth, rhannu gwybodaeth a sicrhau bod gwybodaeth ar gael, adnabod yn gynnar, a gwaith uniongyrchol gyda phlant i ddeall pam maent yn mynd ar goll. Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd fel rhan o'r adroddiad sefydlu yn pwysleisio ffactorau gwasanaeth tebyg sy'n bwysig o ran gwella canlyniadau i blant coll, fel data a gwybodaeth gywir, cyfarfodydd ôl-drafod a gwaith aml-asiantaeth effeithiol. Felly, o gymryd bod y problemau hyn yn llesteirio gallu gwasanaethau i wella canlyniadau i blant coll, mae'n ymddangos bod gwaith yr Hyb wedi'i gynllunio'n briodol i gyflawni ei nodau a'i amcanion.

**Monitro a rheoli perfformiad**

3.18 Mae'r Hyb yn monitro ei berfformiad drwy adroddiadau chwarterol gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu Llamau ac adroddiadau diweddaru i Fwrdd y Prosiect yn bennaf. Mae'r rhain yn darparu dulliau cynyddol effeithiol o fonitro a rheoli perfformiad y gellid eu datblygu a'u gwella ymhellach. Yn arbennig, fel rhan o broses gynllunio strategol, dylai'r Hyb sicrhau bod prosesau ac adnoddau monitro a rheoli perfformiad yn cael eu datblygu o fewn fframwaith CAMPUS[4].

3.19 Mae adroddiadau chwarterol Llamau'n darparu trosolwg o'r gwaith a wneir gan wasanaeth ôl-drafod a chyfryngu Llamau ac yn helpu i roi ymdeimlad o'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei gyflawni o ran allbynnau ac, mewn rhai amgylchiadau, effaith a chanlyniadau. Er mwyn gwella'r adroddiadau, gallent ddadansoddi nifer y sesiynau ôl-drafod a ddarperir fesul plentyn i roi syniad gwell o ddosbarthiad y gwasanaeth ôl-drafod ymhlith holl ddefnyddwyr y gwasanaethau.

3.20 Mae'r Hyb wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei ddull monitro a rheoli perfformiad dros amser drwy ei adroddiadau diweddaru i Fwrdd y Prosiect. Roedd yr Hyb yn paratoi adroddiadau uchafbwyntiau i Fwrdd y Prosiect tan 2014 ac yn darparu 'trosolwg o'r prosiect', 'gweithgareddau a gwblhawyd ers yr adroddiad diwethaf', 'gweithgareddau a drefnwyd cyn yr adroddiad nesaf', 'gwireddu manteision', 'statws y prosiect'

[4] Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

a 'risgiau a phroblemau'. Roedd un adroddiad yn darparu *'straeon newyddion da'* hefyd. Gwellodd fformat a chynnwys yr adroddiadau hyn yn sylweddol ym mis Ionawr 2015 pan ddechreuwyd adrodd yn erbyn themâu penodol a chynnwys tystiolaeth sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r Hyb, fel astudiaethau achos ar gynnydd a chanlyniadau ar gyfer y deg plentyn sy'n mynd ar goll amlaf. Mae'r astudiaethau achos hyn yn helpu i ddangos cymhlethdod a chronoleg achosion y plant sy'n mynd ar goll yn aml.

3.21 Mae adroddiadau diweddaru newydd Bwrdd y Prosiect yn golygu hefyd bod yr Hyb wedi dechrau cyflawni'r allbwn disgwyliedig sef cynhyrchu adroddiadau sy'n nodi tueddiadau a phroblemau allweddol mewn perthynas â phlant coll.

3.22 Gallai adroddiadau chwarterol Llamau a'r adroddiadau diweddaru i Aelodau'r Bwrdd ddangos gwaith ac effaith yr Hyb yn fwy effeithiol pe baent yn:

- casglu a dadansoddi data'n gyson dros amser
- darparu gwybodaeth fethodolegol gyda data monitro[5]
- dadansoddi'r data mewn perthynas â'r canlyniadau bwriedig, fel dadansoddi niferoedd plant sydd ar goll ar sail nifer y rhai sydd â chynllun amddiffyn plant neu gasglu adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ôl-drafod sy'n ymwneud â'r hyn mae'r gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni
- adrodd a chymharu data monitro yn erbyn targedau CAMPUS i fesur a dangos cynnydd a chyflawniadau

3.23 Dylai'r astudiaethau achos sy'n cael eu cynnwys yn adroddiadau diweddaru Bwrdd y Prosiect gynnwys gwybodaeth am gyfraniad yr Hyb at yr achosion hyn, er mwyn deall yn well a yw'r Hyb yn gwneud gwahaniaeth i fywydau'r plant hyn a sut, h.y. beth ddigwyddodd oherwydd yr Hyb, ac i'r gwrthwyneb, beth fyddai wedi digwydd pe na bai'r Hyb wedi ymwneud â'r achos?

---

[5] Er enghraifft, sicrhau y cofnodir y canlynol: (a) sut y casglwyd y data, (b) pryd y casglwyd y data, (c) pwy gasglodd y data a chan bwy, a (d) sut y dadansoddwyd y data.

3.24 Ceir tystiolaeth o ddefnyddio data monitro i lywio gweithgareddau'r dyfodol. Er enghraifft, roedd adroddiad Llamau Mawrth 2013 - Ebrill 2014 yn cyflwyno dadansoddiad, fesul awdurdod lleol, o nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaeth cyfryngu. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi bod angen mynd i'r afael â diffyg atgyfeiriadau gan un o'r awdurdodau lleol ac yn disgrifio sut y byddai camau gweithredu'n cael eu cymryd i hyrwyddo'r gwasanaeth yn yr ardal honno. Pe bai'r argymhellion a amlinellir uchod yn cael eu gweithredu, bydd yr Hyb yn debygol o'i chael hi'n haws i ddefnyddio data monitro i lywio gweithgareddau'r dyfodol.

3.25 Dywedodd lleiafrif o randdeiliaid y gellid gwella prosesau ac adnoddau monitro a rheoli perfformiad yr Hyb ymhellach. Er enghraifft, awgrymwyd y gellid datblygu dulliau rheoli perfformiad mewnol o fewn tîm yr Hyb ei hun a mynd ati'n 'fwy gwyddonol' i ddadansoddi data sy'n gysylltiedig â defnyddio'r MIRAF.

**Llwyddiant gweithredu**

*Mewnbynnau ac adnoddau*

3.26 Mae'r Hyb yn cynnwys 13 aelod o staff (11 cyfwerth ag amser llawn a 2 cyfwerth â rhan-amser). Mae'n cynnwys aelodau staff o'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd, Llamau, y byd addysg a Barnardo's/SERAF. Dywedodd staff yr Hyb y byddai'r Hyb yn elwa ar gael adnodd pwrpasol ar gyfer gweinyddu, fel y nodir yn adran 8.5.3 yr adroddiad llawn.

*Nifer y gweithgareddau a'r allbynnau*

3.27 Os yw'r Hyb yn datblygu targedau ar gyfer ei holl brif allbynnau yn y dyfodol (er enghraifft, nifer y sesiynau hyfforddi a ddarperir, nifer y cyfarfodydd ôl-drafod) bydd hi'n bosibl asesu i ba raddau mae allbynnau'r Hyb wedi'u cyflawni i'r lefel a ddisgwylir. Ar hyn o bryd, ac eithrio cwblhau'r MIRAFs ar gyfer pob plentyn sydd ar goll neu'n absennol, nid oes targedau penodol eraill yn cael eu pennu mewn perthynas ag allbynnau'r Hyb, fel nifer y cyfarfodydd ôl-drafod neu'r sesiynau hyfforddi i'w cynnal, felly nid yw hi'n bosibl asesu a yw'r Hyb

yn cyflawni allbynnau yn unol â disgwyliadau. Fodd bynnag, mae dogfennau'n dangos bod allbynnau wedi'u cyflawni i'r lefelau a amlinellir isod.

*MIRAF*

3.28 Yn ystod ei chwe mis cyntaf cyflawnodd yr Hyb yn well na'r disgwyliadau a bennwyd yn yr Achos Busnes o ran nifer y MIRAFs roedd am geisio eu cwblhau.

3.29 Ym mis Gorffennaf 2014, adroddodd yr Hyb ei fod wedi cwblhau 728 MIRAF ers mis Ebrill 2014. Er mwyn dangos bod y MIRAF wedi'i chwblhau ar gyfer pob plentyn sydd ar goll dylai'r Hyb gymharu nifer y MIRAFs a gwblhawyd gyda nifer y plant aeth ar goll yn yr un cyfnod neu, fel y gwnaeth yn y chwe mis cyntaf, cymharu â'r targedau. Bydd hyn yn galluogi'r Hyb i ddangos cyfran y plant coll y cwblhawyd MIRAF ar eu cyfer a dangos lefel allbynnau'r Hyb o gymharu â disgwyliadau

*Gwasanaeth ôl-drafod*

3.30 Ni chofnodwyd pam roedd y nifer cyfartalog o gyfarfodydd ôl-drafod fesul mis yn amrywio o 52 y mis ym misoedd Gorffennaf - Hydref 2014 i 24 y mis ym misoedd Hydref - Rhagfyr 2014, er enghraifft, fel y dangosir yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Crynodeb o gyfarfodydd ôl-drafod bob mis**

| Adroddiad | Nifer y misoedd | Cyfanswm cyfarfodydd ôl-drafod | Cyfartaledd cyfarfodydd ôl-drafod bob mis |
|---|---|---|---|
| **Mawrth 2013 – Ebrill 2014** [6] | 14 | 480 | 32 |
| **Ebrill 2014 – Mehefin 2014** | 3 | 119 | 40 |
| **Gorffennaf 2014 – Hydref 2014** | 4 | 206 | 52 |
| **Hydref 2014 – Rhagfyr 2014** | 3 | 62 | 21 |
| **Ionawr 2015 – Mawrth 2015** | 3 | 98 | 33 |

[6] Rydym wedi defnyddio'r dyddiadau sydd ar adroddiadau Llamau. Er ei bod yn ymddangos bod dyddiadau'n gorgyffwrdd i ryw raddau, er enghraifft mae Ebrill 2014 wedi'i gynnwys mewn dau adroddiad, nid yw'n hysbys i ba raddau y mae'r data'n gorgyffwrdd.

3.31 Mae ein cyfrifiadau'n awgrymu bod 21% o blant oedd wedi bod ar goll (neu'n absennol) rhwng Hydref a Rhagfyr 2014 wedi derbyn cyfweliad ôl-drafod yn yr un cyfnod. Byddai'n ddefnyddiol i adroddiadau chwarterol Llamau fonitro'n rheolaidd gyfran y plant coll (neu absennol) unigol sy'n derbyn cyfweliad ôl-drafod, gan fod hyn yn helpu i osod lefel y ddarpariaeth yng nghyd-destun cynulleidfa darged yr Hyb, h.y. pob plentyn coll neu absennol yng Ngwent neu o gymharu â thargedau CAMPUS. Bydd hyn yn helpu i ddangos lefel yr allbynnau o gymharu â disgwyliadau.

3.32 Mae cyfran y cyfweliadau ôl-drafod sydd wedi'u cwblhau fel rhai ailadroddus, h.y. wedi'u cynnal gyda phlentyn sydd eisoes wedi cael un neu fwy o gyfweliadau ôl-drafod, wedi amrywio dros amser hefyd. Yn y flwyddyn gyntaf, roedd 19% o'r cyfweliadau ôl-drafod a gynhaliodd yr Hyb yn rhai ailadroddus o gymharu â thros 33% neu fwy a oedd yn atgyfeiriadau ailadroddus o fis Ebrill 2014 ymlaen. O ystyried bod tystiolaeth yn dangos bod y gwasanaeth ôl-drafod wedi'i ymestyn yn ystod y flwyddyn gyntaf (gweler adran 8.4.1 yr adroddiad llawn), mae'n bosibl bod yr Hyb wedi canolbwyntio ar sicrhau bod cymaint o blant â phosibl a fu ar goll yn cael o leiaf un cyfweliad ôl-drafod i ddechrau, yn hytrach na chynnal cyfweliadau ôl-drafod ailadroddus. Byddai cael protocolau ysgrifenedig yn gwneud sail resymegol yr Hyb dros drefnu cyfweliadau ôl-drafod yn fwy tryloyw.

3.33 Yn seiliedig ar ein cyfrifiadau ni, cafodd rhwng 17% a 30% o blant oedd yn derbyn cymorth gan weithiwr ôl-drafod eu hatgyfeirio i asiantaethau eraill am gymorth ychwanegol rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mawrth 2015. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn nodi a oedd y gwasanaethau hyn yn 'briodol' o ystyried anghenion y plant a gafodd eu hatgyfeirio. Gallai'r Hyb asesu hyn drwy ddatblygu dulliau adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid.

3.34 Mae'r Hyb yn cyfrannu at gynllunio gofal. Rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mawrth 2015 mynychodd staff yr Hyb gyfanswm o 174 cyfarfod allanol. Roeddynt yn fwyaf tebygol o fod wedi mynychu cyfarfodydd strategol (78 i gyd), adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal (23 i gyd), a

chyfarfodydd cynllunio gofal (23 i gyd). Er mwyn dangos lefel y llwyddiant byddai'n fuddiol pe bai'r Hyb yn nodi'r rhain ochr yn ochr â nifer y cyfarfodydd y gwahoddwyd y staff iddynt a/neu ei thargedau ei hun yn y maes hwn.

3.35 O fis Mawrth 2013 i fis Mawrth 2015 atgyfeiriwyd 52 o blant a phobl ifanc i'r gwasanaeth cyfryngu. Cafodd rhai o'r plant hyn fwy nag un sesiwn gyfryngu. Yn y dyfodol, dylai Llamau barhau i fonitro ac adrodd ar union nifer y cyfweliadau cyfryngu a gynhaliwyd ym mhob chwarter er mwyn gallu cymharu ar draws cyfnodau amser. Yn ogystal, os yw'r niferoedd hyn yn cael eu nodi mewn cymhariaeth â thargedau CAMPUS, bydd hyn o gymorth i'r Hyb fesur cynnydd o ran i ba raddau mae'n cyflawni'r nifer disgwyliedig o gyfweliadau cyfryngu (unigol a/neu ailadroddus).

**Niferoedd sy'n manteisio ar weithgareddau ac allbynnau**

*Rhanddeiliaid*

3.36 Mae llawer o randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll yn manteisio ar weithgareddau'r Hyb. Er enghraifft, amcangyfrifir[7] bod yr Hyb wedi darparu hyfforddiant i tua 1,250 o weithwyr proffesiynol o bob math o asiantaethau ers ei sefydlu, gyda phob un ohonynt wedi cael gwybodaeth am Brotocol Gwent. Yn y dyfodol, dylai'r Hyb gasglu ffigurau mwy penodol ar y canlynol:

- nifer y staff o'r holl asiantaethau sy'n derbyn hyfforddiant
- nifer staff unedau preswyl a hosteli sy'n derbyn hyfforddiant
- nifer y gofalwyr maeth/rhieni a gofalwyr sy'n derbyn hyfforddiant

3.37 Dywedodd yr Hyb fod tudalennau gwe MIRAF wedi derbyn 600,000 o ymweliadau rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Tachwedd 2014, ac 184,000 ymweliad arall ym mhedwerydd chwarter 2014/15.[8] Dywedwyd bod y defnydd o MIRAF ar gynnydd.[9] Mae hyn yn

---

[7] Gan nad yw'r Hyb wedi casglu'r union niferoedd a dderbyniodd hyfforddiant, cymerir yn ganiataol bod nifer y cyfranogwyr ar gyfer pob cwrs a ddarperir gan yr Hyb yn 30 yn seiliedig ar amcangyfrif gorau'r Hyb.

[8] Adroddiadau perfformiad cyfarfod y Bwrdd 13 Ebrill 2015, tud. 2.

[9] Adroddiad Bwrdd Plant Coll Gwent - Ionawr 15, tud. 10.

awgrymu bod yr Hyb yn sicrhau defnydd cynyddol uchel o'r MIRAF ymysg gweithwyr proffesiynol.

3.38 Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid a holwyd yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r MIRAF ac wedi ei defnyddio. Fodd bynnag, awgrymodd un aelod o staff y gallai gwasanaethau addysg a chymdeithasol wneud mwy o ddefnydd o'r MIRAF a dywedodd rhanddeiliad arall y gallai'r heddlu fod yn fwy trylwyr weithiau o ran gwirio'r MIRAF cyn ymatebion i achosion o blant ar goll.

3.39 Awgrymodd tri o wyth astudiaeth achos yr ymgynghoriad y gallai rhai gweithwyr proffesiynol wneud mwy o ddefnydd o'r MIRAF. Yn gyffredinol roedd yr astudiaethau achos yn awgrymu y byddai mwy o ymwybyddiaeth o'r MIRAF ymysg rhai gweithwyr proffesiynol yn helpu i gynyddu'r niferoedd sy'n ei defnyddio. Mae'r mater hwn yn gysylltiedig â gallu'r Hyb i sicrhau bod partneriaid yn ymwybodol o'r MIRAF ac yn ei defnyddio. Mae'r Hyb yn ddibynnol ar ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid o'i ymarfer ac ar ddefnyddio MIRAF yn effeithiol.

3.40 Mae astudiaethau achos yr ymgynghoriad yn awgrymu y gellid datblygu ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Hyb a'i rôl ymysg rhai gweithwyr proffesiynol ymhellach. Gan fod yr Hyb yn gallu darparu hyfforddiant i nifer gynyddol o weithwyr proffesiynol, disgwylir y bydd hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn helpu i gynyddu dylanwad yr Hyb o ran cyflawni'r canlyniadau bwriedig sy'n dibynnu ar ymarfer effeithiol gan asiantaethau partner.

*Plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr*

3.41 Mae'r Hyb wedi gallu ymgysylltu'n effeithiol â chyfran fawr iawn o'r plant y mae'n eu hatgyfeirio i gyfweliadau ôl-drafod. Er enghraifft, rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mawrth 2015 manteisiodd dros 90% o blant a atgyfeiriwyd ar y gwasanaeth ôl-drafod a chymryd rhan lawn ynddo. Fodd bynnag, gall yr Hyb ddewis dadansoddi cyfran y plant a dderbyniodd gyfweliad ôl-drafod o gymharu â'r holl blant yng Ngwent sydd wedi mynd ar goll hefyd, gan mai dyma gynulleidfa darged y gwasanaeth. Dylai'r Hyb gofnodi rhesymau dros beidio atgyfeirio plant

i gyfweliad ôl-drafod hefyd. Bydd dadansoddiad o'r fath yn helpu i roi syniad i'r Hyb i ba raddau mae'n llwyddo i ddenu ei gynulleidfa darged allweddol ac i asesu ei ddarpariaeth yn unol â hynny.

3.42 Hyd yma nid yw'r Hyb wedi ymgysylltu â phlant **sydd mewn perygl** o fynd ar goll am y tro cyntaf drwy fentora gan gymheiriaid, gweithdai neu gyfrannu at raglenni addysg ysgolion. Fodd bynnag, mae'r Hyb wedi dechrau gwneud darpariaeth ar gyfer mentora gan gymheiriaid a byddai'n elwa ar ddarparu ar gyfer gweithdai a gwaith mewn ysgolion, er mwyn ymgysylltu â'r gynulleidfa darged hon. Amlygodd y staff hyn fel maes datblygu i'r Hyb yn y dyfodol.

*Ansawdd gweithgareddau ac allbynnau*

3.43 Os yw'r Hyb yn pennu targedau CAMPUS ar gyfer ansawdd gweithgareddau ac allbynnau mae'n ceisio eu cyflawni bydd hi'n bosibl mesur pa mor llwyddiannus mae wedi bod yn y maes hwn. Serch hynny, mae dogfennau, cyfweliadau gyda staff a rhanddeiliaid, ac astudiaethau achos yr ymgynghoriad, yn dangos bod gweithgareddau ac allbynnau'r Hyb wedi'u cyflawni'n gyffredinol i'r safon a ddisgwylir gan staff, rhanddeiliaid, plant a phobl ifanc.

*MIRAF*

3.44 Dywedodd mwyafrif y staff a'r rhanddeiliaid fod y MIRAF wedi bod yn elfen lwyddiannus iawn o waith yr Hyb a'i fod wedi'i darparu i'r safon ddisgwyliedig. Nodwyd y rhesymau canlynol i egluro pam mae'r MIRAF yn cael ei hystyried fel ffurflen o safon uchel sy'n cael ei gweithredu'n llwyddiannus: mae'r wybodaeth a gyflwynir yn gyson a manwl; mae'n gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch; gall y wybodaeth ar y MIRAF helpu i gryfhau achos dros ymyrryd, ac mae'r broses o wneud penderfyniadau wedi cyflymu ac yn seiliedig ar well gwybodaeth.

3.45 Awgrymodd lleiafrif o randdeiliaid y gellid gwella'r MIRAF ymhellach mewn rhai achosion drwy sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu diweddaru'n amlach a phroblemau technegol yn cael eu datrys, problemau fel allgofnodi awtomatig, prosesu araf a darparu

gwybodaeth sy'n nodi amser dilys. Fodd bynnag, mae materion fel allgofnodi awtomatig yn angenrheidiol i sicrhau bod data'r MIRAF yn cael ei gadw'n ddiogel a bod modd cael gafael arno'n ddiogel.

3.46 Dangosodd dadansoddiad o ddeg cofnod asesu risg MIRAF (gweler adran 9.3.2 yr adroddiad llawn) fod lle i'r Hyb wella ansawdd y MIRAF ymhellach hefyd gan sicrhau bod rhesymau am benderfyniadau risg yn cael eu nodi yn adrannau 'ymateb' neu 'sail resymegol' matrics risgiau'r MIRAF. Gallai hyn hefyd ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol i ymarferwyr eraill i ddeall pam mae risgiau wedi newid a sut y gallai'r Hyb fod wedi cyfrannu at hyn, yn ogystal â helpu i ddangos penderfyniadau tryloyw.

*Gwasanaeth ôl-drafod*

3.47 Dywedodd y staff a'r rhanddeiliaid yn gyson fod y gwasanaeth ôl-drafod yn elfen lwyddiannus iawn o waith yr Hyb a bod plant a phobl ifanc yn credu ei fod yn cael ei ddarparu i safon uchel. Teimlwyd ei fod yn effeithiol gan fod y gweithwyr ôl-drafod yn annibynnol ac yn ymwneud â phlant a phobl ifanc mewn ffordd wahanol i asiantaethau statudol. Ystyriwyd bod hyn yn helpu plant i ymgysylltu â'r gwasanaeth.

3.48 Roedd y rhesymau a nodwyd i egluro pam roedd staff a rhanddeiliaid o'r farn bod y cyfweliadau ôl-drafod o safon uchel yn cynnwys: maent yn cael eu darparu yn amserol; mae gweithwyr ôl-drafod yn gwneud i blant deimlo'n gyffyrddus; mae cyfweliadau ôl-drafod yn arwain at ddatgelu mwy o wybodaeth; maent yn fodd o gasglu gwybodaeth fwy cywir a chyfredol, yn cynnwys y rhesymau dros fynd ar goll; ac yn hwyluso'r trefniadau ar gyfer cyflwyno ymatebion priodol.

3.49 Roedd astudiaethau achos yr ymgynghoriad ac astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau hefyd yn cadarnhau hefyd bod cyfweliadau ôl-drafod yn cael eu cynnal yn amserol ac yn ystyriol, gan awgrymu eu bod yn cael eu darparu i safon uchel. Roedd plant, gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn astudiaethau achos yr ymgynghoriad yn credu hefyd bod y

gwasanaeth ôl-drafod (a chyfryngu mewn un achos) yn gadarnhaol, gan ei ddisgrifio'n ddefnyddiol gan mwyaf.

*Hyfforddiant*

3.50 Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn gwybod bod yr Hyb yn darparu hyfforddiant a'r rhan fwyaf yn cyfeirio'n gadarnhaol at hyn, gan awgrymu ei fod yn cael ei ddarparu i safon ddigonol.

3.51 Awgrymodd lleiafrif o randdeiliaid y byddai hyfforddiant gloywi yn ddefnyddiol i sicrhau bod staff newydd yn cael eu hyfforddi a bod staff cyfredol yn cael eu hatgoffa am Brotocol Gwent.

3.52 Dylai'r Hyb ddatblygu adnoddau monitro ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a dylent gael eu cwblhau gan bawb sy'n derbyn hyfforddiant. Dylai'r dulliau hyn fesur i ba raddau y cyflawnwyd yr effeithiau bwriedig gyda rhanddeiliaid drwy hyfforddiant, fel gwelliannau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion sy'n gysylltiedig â phlant coll. Yn ogystal â dangos effaith bydd yn helpu'r Hyb i nodi unrhyw feysydd sydd angen eu gwella hefyd.

*Gwella gwaith aml-asiantaeth*

3.53 Roedd cyfweliadau gyda staff a rhanddeiliaid yn awgrymu bod yr Hyb yn helpu i wella gwaith aml-asiantaeth a lleihau dyblygu ymysg gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll. Er enghraifft, dywedodd rhanddeiliaid fod gweithwyr proffesiynol yn gallu rhannu a chael gafael ar wybodaeth berthnasol yn well a bod defnyddwyr gwasanaethau'n llai tebygol o orfod ailadrodd eu hunain wrth wahanol weithwyr proffesiynol erbyn hyn. Dywedodd staff a rhanddeiliaid fod y model aml-asiantaeth sydd gan yr Hyb ei hun wedi helpu i feithrin gwaith aml-asiantaeth yn fwy eang yn sgil cysylltiadau amrywiol, gwybodaeth a dealltwriaeth tîm yr Hyb.

3.54 Awgrymodd un aelod o staff bod yr Hyb wedi gweithio'n effeithiol ag asiantaethau fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a SERAF, ond y gallai wneud mwy i weithio gydag asiantaethau tai.

3.55 Darparodd pedair o wyth astudiaeth achos yr ymgynghoriad (a welir yn Atodiad 1) dystiolaeth fod gweithwyr proffesiynol yn gweithio’n dda gyda’i gilydd (astudiaethau achos: un, pedwar, pump a saith) a darparodd pedwar astudiaeth achos (astudiaethau achos: dau, chwech, saith ac wyth) dystiolaeth bod gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol i gefnogi’r person ifanc. Fodd bynnag, nid oedd hi’n glir bod amser bod y gwaith aml-asiantaeth yn deillio o ymyrraeth yr Hyb.

3.56 Mewn tair o’r astudiaethau achos ceir tystiolaeth y gellid cael mwy o weithio aml-asiantaeth gyda’r person ifanc, yn arbennig o ran gwaith partneriaeth gweithwyr proffesiynol gyda’r Hyb. Mewn tair astudiaeth achos ceir tystiolaeth y byddai’r gweithwyr proffesiynol wedi gallu rhannu gwybodaeth yn well i gefnogi’r person ifanc, wedi gallu defnyddio mwy o’r MIRAF (er enghraifft, gweler adran 8.5.2 yr adroddiad llawn) ac, mewn un achos, gellid fod wedi osgoi dyblygu gwaith ymhellach. Awgrymodd y cyfranogwyr y byddai mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r Hyb yn helpu i hwyluso hyn.

3.57 Roedd un astudiaeth achos yn awgrymu bod yr Hyb wedi helpu i wella gwaith aml-asiantaeth drwy sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol ddealltwriaeth gyson o Brotocol Gwent. Fodd bynnag, awgrymodd dwy astudiaeth achos bod angen i rai gweithwyr proffesiynol a gofalwyr gael gwell dealltwriaeth o Brotocol Gwent ac, yn arbennig, y gwahaniaeth rhwng y categorïau ‘coll’ ac ‘absennol’.

*Meysydd i’w gwella*

3.58 Roedd meysydd eraill i’w gwella a nodwyd gan staff a rhanddeiliaid yn cynnwys: mwy o adnoddau staffio, yn enwedig staff gweinyddol; datblygu gwaith uniongyrchol yr Hyb gyda phlant a theuluoedd; ymestyn cylch gwaith yr Hyb i gynnwys oedolion; datblygu arweiniad strategol; a darparu gwasanaeth 24 awr.

**Llwyddiant o ran gwella effaith a chanlyniadau**

3.59 Mae dogfennau, cyfweliadau gyda staff a rhanddeiliaid, ac astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn ogystal â lleiafrif o astudiaethau achos yr ymgynghoriad, yn darparu tystiolaeth bod yr Hyb wedi cael effaith gadarnhaol ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll mewn nifer o ffyrdd, fel gwella'r canlynol ymysg gweithwyr proffesiynol:

- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â phlant sydd ar goll
- gallu cael gafael ar wybodaeth gywir am blant sy'n mynd ar goll
- dealltwriaeth o risg mewn perthynas â phlant penodol
- y gallu i gydweithio
- y gallu i weithio'n fwy effeithlon.

3.60 Roedd cyfweliadau gyda staff a rhanddeiliaid yn awgrymu bod yr Hyb wedi helpu gweithwyr proffesiynol i ymateb yn briodol i blant sydd ar goll ac wedi gwella agweddau gweithwyr proffesiynol at blant coll. Yn arbennig, mae wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o ddifrifoldeb plant yn mynd ar goll.

3.61 Fodd bynnag, dangosodd un cyfweliad â rhanddeiliad a nifer o astudiaethau achos yr ymgynghoriad y gellid gwella dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol a gofalwyr o'r categorïau 'coll' ac 'absennol' ymhellach. Roedd astudiaethau achos yr ymgynghoriad yn dangos hefyd y gallai rhai gweithwyr proffesiynol fod yn fwy gwybodus am achosion penodol o blant sydd ar goll. Byddai codi ymwybyddiaeth a chynyddu'r defnydd o'r MIRAF yn debygol o gyflawni hyn.

3.62 Yn y dyfodol, gall yr Hyb ddangos ei effaith ar weithwyr proffesiynol yn fwy argyhoeddedig drwy ei brosesau monitro a rheoli perfformiad ei hun drwy sicrhau ei fod yn mabwysiadu dull mwy systematig o gasglu adborth gan randdeiliaid sy'n cynnwys gwybodaeth am, er enghraifft, (a) nodweddion cefndir y rhanddeiliad, (b) pam eu bod wedi cysylltu â'r Hyb, (c) sut wnaeth yr Hyb helpu, (d) pa mor fodlon oeddynt gyda'r Hyb, a (e) sut y gallai'r Hyb wella yn y dyfodol.

*Lleihau nifer y plant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro*

3.63 Mae yna dystiolaeth addawol i awgrymu bod yr Hyb yn llwyddo i leihau nifer y plant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro (gweler 3.64). Fodd bynnag, mae angen dull cadarnach o fonitro a rheoli perfformiad, yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn, er mwyn i'r Hyb allu dangos hyn yn gadarn.

3.64 Mae dogfennau'r Hyb yn dangos bod amlder achosion o fynd ar goll ymysg y deg uchaf yn y cohort wedi gostwng tua 50% ers sefydlu'r Hyb[10]. Eglurodd staff yr Hyb fod hyn wedi'i gyfrif drwy ddefnyddio data COMPACT[11] er na chyflwynwyd y data gyda'r casgliad hwn.

3.65 Roedd un ddogfen gan yr Hyb yn cyflwyno data ar amlder achosion y deg plentyn sy'n mynd ar goll amlaf.[12] Mae'n dangos bod y nifer cyfartalog o achosion o fynd ar goll ymysg y deg plentyn uchaf yn 39 achos yn 2013, blwyddyn sefydlu'r Hyb, o gymharu â 42 achos yn 2012. Mae hyn yn dangos bod amlder yr achosion o fynd ar goll wedi gostwng 7% ymysg y cohort hwn ar ôl sefydlu'r Hyb. Er ni wyddir i ba raddau y digwyddodd y gostyngiad hwn ymysg yr un plant ar draws blynyddoedd neu i ba raddau y gellir priodoli hyn i'r Hyb. Dylid nodi hefyd fod y gostyngiad hwn yn berthnasol i'r deg plentyn uchaf yn unig ac y dylid ystyried y gostyngiad gyda gofal wrth fesur llwyddiant yr Hyb. Drwy ddilyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn dylai'r Hyb allu casglu a dadansoddi data mewn ffordd fwy systematig i ddangos ei lwyddiant yn y dyfodol.

3.66 Mae dadansoddiad o ddata a ddarparwyd gan yr Hyb, am y ddau fis y mae gennym werth dwy flynedd o ddata NICHE ar eu cyfer, yn dangos bod cynnydd bychan wedi bod yn nifer y plant oedd ar goll (neu'n absennol) rhwng 2014 a 2015. Yn benodol, rhwng mis Chwefror 2014 a mis Chwefror 2015 cafwyd cynnydd o 7% yn nifer y plant coll neu absennol a rhwng mis Mawrth 2014 a mis Mawrth 2015

[10] Fodd bynnag, nid yw'r Papur Briffio y dyfynnir hyn ynddo yn cyflwyno'r data a ddefnyddiwyd i ddod i'r casgliad hwn, nac yn egluro sut y cafodd ei gasglu.

[11] System reoli gwybodaeth flaenorol Heddlu Gwent.

[12] Diweddariad 9 mis i Gomanderiaid Unedau Heddlua Lleol, tud. 1

cafwyd cynnydd o 11%. Bydd parhau i gofnodi a dadansoddi data NICHE ar achosion o blant coll yn yr un mis ar draws blynyddoedd gwahanol yn helpu i weld a barhaodd y cynnydd hwn ers mis Chwefror 2015. Fodd bynnag, mae'n her i weld i ba raddau mae'r cynnydd hwn yn gysylltiedig â gwaith yr Hyb neu a fyddai'r cynnydd hwn wedi bod yn fwy pe na bai'r Hyb yn bodoli.

3.67 Mae astudiaethau achos sydd wedi'u cynnwys yn adroddiadau diweddaru Bwrdd Prosiect yr Hyb yn awgrymu bod pedwar o'r deg plentyn a aeth ar goll amlaf rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2014 wedi mynd ar goll yn llai aml ar ôl ymyrraeth yr Hyb. Yn y dyfodol, byddai'r astudiaethau achos yn well pe bai rôl yr Hyb o ran sicrhau canlyniadau gwell yn cael ei nodi. Fel arall, nid yw'n bosibl priodoli canlyniadau cadarnhaol i'r Hyb ei hun.

3.68 Dangosodd dadansoddiad o ddeg MIRAF gan Cordis Bright fod yna duedd bendant i lefelau risg plant yr oedd yr Hyb wedi cwblhau MIRAFs ar eu cyfer ostwng neu aros yr un fath dros amser. Er nad yw'n bosibl priodoli'r newid cadarnhaol hwn neu ddilyniant i ymyrraeth yr Hyb, mae'n adlewyrchu'r addawol ar waith yr Hyb yn lleihau risgiau i blant sy'n mynd ar goll.

3.69 Roedd mwyafrif y staff a'r rhanddeiliaid yn teimlo bod yr Hyb yn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant o ran lleihau achosion o fynd ar goll, ond dim ond lleiafrif a allai ddarparu tystiolaeth neu enghreifftiau i egluro hyn ac roedd llawer yn egluro wrth ateb na allent gyflwyno unrhyw ffigurau pendant. Felly, er bod rhanddeiliaid a staff yn dueddol o ddweud eu bod yn credu bod yr Hyb yn lleihau nifer y plant coll, roeddynt yn awgrymu y gallent farnu'n fwy hyderus pe byddai ganddynt ddata monitro perthnasol.

3.70 Darparodd astudiaethau achos yr ymgynghoriad a'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau rywfaint o dystiolaeth newydd y gallai gwaith yr Hyb fod wedi dylanwadu ar ostwng nifer yr achosion o fynd ar goll yn achos rhai plant. Er enghraifft, darparodd dwy o wyth astudiaeth achos yr ymgynghoriad rywfaint o dystiolaeth fod

ymyrraeth yr Hyb wedi helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddai'r bobl ifanc yn mynd ar goll eto yn yr achosion hynny. Er bod pedair o'r wyth astudiaeth achos oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn nodi bod achosion o fynd ar goll wedi lleihau neu ddod i ben ers ymyrraeth yr Hyb nid oedd hi'n glir bob amser ai'r Hyb oedd yn gyfrifol am hyn.

3.71 Fodd bynnag, nid oedd astudiaethau achos yr ymgynghoriad yn darparu tystiolaeth gyson bod gwaith yr Hyb wedi arwain yn uniongyrchol at leihau risg o blant yn mynd ar goll neu nad oedd plant yn mynd ar goll yn dilyn ymyrraeth yr Hyb. Serch hynny, mae'n bwysig nodi bod yr astudiaethau achos yn cyflwyno profiadau cyfran fechan o blant y mae'r Hyb wedi ymyrryd yn eu hachosion ac yn adlewyrchu safbwyntiau gwahanol y rhai a gymerodd ran. Yn hytrach na datgelu i ba raddau mae'r Hyb yn cyflawni canlyniadau ac effeithiau bwriedig yn effeithiol, mae'r astudiaethau achos yn dangos bod mecanweithiau'r Hyb yn gallu arwain at newidiadau bwriedig ac wedi gwneud hynny mewn rhai achosion.

*Gwella canlyniadau eraill i blant sy'n mynd ar goll*

3.72 Mae'r astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r dogfennau a dderbyniwyd yn cynnwys tystiolaeth addawol i ddangos bod yr Hyb, gyda'i bartneriaid, yn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill i blant, fel gwella presenoldeb addysgol, lleihau risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a lleihau'r risg o ddioddef trais neu niwed. Yn y dyfodol, bydd yr Hyb yn gallu dangos y canlyniadau hyn yn fwy effeithiol os yw'n datblygu ei ddull o fonitro a rheoli perfformiad yn unol ag argymhellion yr adroddiad hwn.

3.73 Mae dogfennau'r Hyb yn darparu tystiolaeth bod pedwar o'r deg plentyn a aeth ar goll amlaf yn 2014 wedi gwella canlyniadau eraill, fel lleihau'r risg o gam-fanteisio rhywiol ar blant a gwella eu presenoldeb addysgol. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r astudiaethau achos a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiadau Briffio yn egluro'n well ai'r Hyb a sicrhaodd y newidiadau hyn a sut.

3.74 Mae dogfennau'n awgrymu bod yr Hyb wedi gallu nodi mwy o blant a oedd mewn perygl o ddioddef cam-fanteisio rhywiol, o leiaf yn y naw mis cyntaf, nag a fyddai wedi'u nodi a chael asesiad risg fel arall, ac wedi'u hatgyfeirio at wasanaethau priodol.[13] Yn ogystal â monitro'r broses o nodi ac atgyfeirio, byddai'n ddefnyddiol monitro'r canlyniadau a brofwyd gan y plant hyn o ganlyniad i ymyrraeth yr Hyb a rhanddeiliaid eraill.

3.75 Dywedodd lleiafrif o randdeiliaid fod yr Hyb wedi helpu i wella canlyniadau eraill i blant sy'n mynd ar goll, fel lleihau erledigaeth neu droseddu. Roedd llai o randdeiliaid yn ystyried y canlyniadau hyn o gymharu â faint oedd yn ystyried effaith yr Hyb ar nifer y plant coll. Mae hyn yn ategu'r ffaith mai ychydig o randdeiliaid a nododd ganlyniadau eraill fel nodau'r Hyb yn adran 5.4 yr adroddiad llawn.

3.76 Dangosodd yr astudiaethau achos oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau fod yr Hyb yn helpu i wella canlyniadau eraill i blant sy'n mynd ar goll. Er enghraifft, darparodd yr astudiaethau achos dystiolaeth fod profiad o ddioddef cam-fanteisio rhywiol wedi lleihau mewn un achos; bod gan y bobl ifanc well dealltwriaeth er mwyn amddiffyn eu hunain rhag dioddef cam-fanteisio rhywiol mewn pedwar achos; a bod y berthynas deuluol wedi gwella mewn pedwar achos.

3.77 Roedd astudiaethau achos yr ymgynghoriad yn darparu tystiolaeth gymysg am effaith yr Hyb ar wella canlyniadau eraill i bobl ifanc. Awgrymodd tri ohonynt fod pobl ifanc yn wynebu llai o risg o niwed pan fyddant ar goll o ganlyniad i ymyrraeth yr Hyb, er bod tair astudiaeth achos yn dangos bod y bobl ifanc yn parhau i wynebu llawer o risg pan fyddant ar goll. Mae'r dystiolaeth newydd hon sy'n seiliedig ar sampl fechan yn awgrymu bod yr Hyb yn cael llwyddiant cymysg o ran gwella canlyniadau eraill i blant sy'n mynd ar goll, ond fel y dywedodd rhanddeiliaid, mae newid bywydau ac ymddygiad plant yn cymryd amser.

[13] Diweddariad 9 mis i Gomanderiaid Unedau Heddlua Lleol

3.78 Ni wnaeth unrhyw gyfweliad, dogfen nag astudiaeth achos ddangos a yw'r Hyb wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o fasnachu plant sy'n mynd ar goll. Fel rhan o broses gynllunio strategol dylai'r Hyb asesu a yw hyn yn un o'i chanlyniadau bwriedig ac os yw, mesur i ba raddau y cyflawnir hynny drwy ei waith monitro a rheoli perfformiad.

*Amrywiadau yn effaith yr Hyb ar blant*

3.79 Dywedodd mwyafrif o aelodau staff yr Hyb a lleiafrif o randdeiliaid fod effaith yr Hyb yn amrywio yn ôl lefel yr angen. Dywedodd y staff fod yr Hyb yn fwy effeithiol ar hyn o bryd fel ffurf o ymyrraeth gynnar i blant sydd wedi mynd ar goll unwaith neu ddwywaith yn unig. Dywedodd y staff y byddai angen mwy o adnoddau ar yr Hyb i weithio'n well gyda phlant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro, a dywedodd lleiafrif o'r staff ei bod angen iddo ddatblygu ei waith mewn ysgolion a darpariaeth mentora cymheiriaid i ddatblygu ei rôl ym maes atal sylfaenol.

3.80 Dywedodd mwyafrif y staff hefyd fod effaith yr Hyb yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Hyb ddadansoddi cyfranogiad awdurdodau lleol yn ôl lefel angen (e.e. drwy ddadansoddi niferoedd yr achosion o fynd ar goll) i fesur a yw effaith yn amrywio rhwng awdurdodau lleol.

*Ffactorau galluogi a rhwystrau*

3.81 Roedd mwyafrif y staff yn teimlo mai'r prif ffactor neu agwedd ar waith yr Hyb a oedd wedi effeithio'n gadarnhaol ar blant coll yw'r gwasanaeth ôl-drafod a bod hwn yn arbennig wedi bod yn fodd o feithrin perthynas gadarnhaol â phlant sy'n mynd ar goll gan ei fod yn cael ei ddarparu'n annibynnol. Dywedodd lleiafrif o randdeiliaid hefyd fod y gwasanaeth ôl-drafod annibynnol yn un o'r prif ffactorau sy'n galluogi'r Hyb i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

3.82 Dywedodd staff a soniodd am y mater hwn fod natur aml-asiantaeth a chydweithredol yr Hyb yn ffactor galluogi mawr.

3.83 Dywedodd staff a rhanddeiliaid a wnaeth sylwadau ar y mater fod brwdfrydedd ac ymroddiad y gweithwyr rheng flaen a'r tîm wedi galluogi'r Hyb i wneud gwahaniaeth.

3.84 Fodd bynnag, dywedodd lleiafrif o'r staff fod agweddau ar waith aml-asiantaeth hefyd yn rhwystro'r Hyb rhag cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Er enghraifft, dywedodd un aelod o staff ei bod hi'n anodd dod â 5 Awdurdod Lleol a thimau aml-asiantaeth at ei gilydd, eu systemau, eu telerau ac amodau a chael aelodau timau i dderbyn gwahaniaethau. Siaradodd un aelod o staff yr Hyb am yr anawsterau wrth geisio cael gwybodaeth amserol gan ysgolion i gwblhau'r adnodd asesu risg. Mae hyn yn gysylltiedig â dibyniaeth yr Hyb ar waith ei bartneriaid i wireddu rhai o'i effeithiau a'i ganlyniadau bwriedig allweddol.

3.85 Dywedodd lleiafrif o staff fod amharodrwydd rhai gweithwyr proffesiynol i dderbyn dull newydd ac arloesol yr Hyb, cylch gwaith daearyddol yr Hyb a diffyg ymwybyddiaeth o'r Hyb ymysg gweithwyr proffesiynol hefyd yn rhwystrau i'r Hyb. Dim ond un aelod o staff a ddywedodd fod agweddau gwael lleiafrif o swyddogion yr heddlu yn her i'r Hyb.

**Gwerth am arian**

3.86 Ar sail y data mwyaf perthnasol a adolygwyd, amcangyfrifir bod cynnal yr Hyb am flwyddyn yn costio £406,367. Amcangyfrifir bod dros hanner y gost hon yn cael ei hysgwyddo gan asiantaethau eraill yng Ngwent sy'n cyfrannu £253,024 mewn cyflogau staff.

3.87 Ym mlwyddyn un a dau, roedd costau'r Hyb ei hun yn llawer is na'r disgwyl (£145,008 yn llai yn y flwyddyn gyntaf a thua £132,401 yn llai yn yr ail flwyddyn). O holi staff a thrafod gyda chydweithwyr yr Hyb deallwn fod y tanwariant wedi'i ddefnyddio wedyn yn y ddwy flynedd.

3.88 Nid yw'n bosibl cynnal dadansoddiad cost a budd cadarn o'r Hyb gan nad oes mesuriad cyfanredol o'i ganlyniadau. Fodd bynnag, maw un astudiaeth achos yn awgrymu y gallai'r Hyb fod wedi helpu i osgoi tua £18,000 mewn ymchwiliadau gan yr heddlu i bobl sydd ar goll mewn perthynas â pherson ifanc penodol. Mae'n debyg fod hwn yn amcangyfrif ceidwadol gan nad yw'n ystyried arbedion posibl eraill ledled yr economi iechyd a gofal.

3.89 Efallai y bydd yr Hyb yn gallu dangos gwerth am arian yn well yn y dyfodol os yw'n cofnodi data canlyniadau meintiol pendant, fel addysg neu statws hyfforddiant person ifanc cyn i'r Hyb ymyrryd ac ar ôl i'r Hyb ymyrryd. Bydd modd cyfrif costau a buddion yn fwy effeithiol o gael data o'r fath.

3.90 Dywedodd mwyafrif y rhanddeiliaid eu bod yn credu bod yr Hyb yn cynnig gwerth am arian. Awgrymodd rhanddeiliaid fod yr Hyb yn cynnig gwerth da am arian gan ei fod yn: helpu i leihau galw ar wasanaethau eraill, yn enwedig yr heddlu; ei fod yn fwy effeithlon na dulliau traddodiadol; ac yn cael ei ddarparu'n gymharol rad.

3.91 Dywedodd lleiafrif o randdeiliaid ei bod hi'n bwysig ystyried y gallai'r Hyb, fel ffurf o ymyrraeth gynnar, ddatgelu anghenion heb eu diwallu a chynyddu'r galw ar y cychwyn. Dywedodd un rhanddeiliad ei bod hi'n rhy gynnar i farnu. Mae'n bwysig cofio hyn wrth ddadansoddi canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Hyb, fel niferoedd y plant a gofnodwyd fel plant ar goll. Er enghraifft, gall yr Hyb arwain at adrodd mwy cywir, a allai arwain at gynnydd yn nifer y plant coll a gofnodir yn ei dro.

## 4. Casgliadau

4.1 Mae'r Hyb yn brosiect arloesol sy'n darparu gwasanaeth unigryw mewn perthynas â phlant sy'n mynd, neu sydd mewn perygl o fynd ar goll yn rhanbarth Gwent. Ceir tystiolaeth bod prif feysydd gwaith yr Hyb yn cael eu gweithredu'n briodol, fel: Protocol Gwent, y MIRAF, rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a gwaith ôl-drafod. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, gellid datblygu elfennau o waith yr Hyb ymhellach, yn enwedig o ran cynllunio strategol, monitro a rheoli perfformiad. Er bod rhywfaint o dystiolaeth addawol i awgrymu bod yr Hyb yn llwyddo i gyflawni ei effeithiau a'i ganlyniadau bwriedig, fel yr argymhellwyd, mae angen datblygu'r ffordd mae'r Hyb yn monitro ei effeithiau ymhellach er mwyn dangos ei werth ac i ba raddau mae'n cyflawni ei ganlyniadau bwriedig. Gobeithiwn ailystyried y materion hyn fel rhan o'r gwerthusiad crynodol.

# 5. Argymhellion

*Cynllunio strategol*

5.1 **Argymhelliad 1**: Dylai'r Hyb ddatblygu cynllun strategol. Yn arbennig, rydym yn argymell:

- Dylai'r Hyb ddatblygu ei 'Gylch Gorchwyl' i gynhyrchu nodau ac amcanion mwy manwl a chyson er mwyn sicrhau bod holl staff yr Hyb a'r rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn perthynas â'r Hyb yn deall beth mae'n ceisio ei gyflawni ac felly'n gallu gweithio tuag at yr un nodau.
- Dylai hyn gael ei gynnwys mewn cynllun strategol, y gellid ei seilio ar y model rhesymegol (a amlinellir yn yr adroddiad hwn) ar gyfer y prosiect, sydd hefyd yn cynnwys nodau ac amcanion CAMPUS ar gyfer y gweithgareddau, allbynnau, effeithiau a chanlyniadau mae'r Hyb yn ceisio eu cyflawni, ynghyd â mesurau a ddefnyddir i fesur cynnydd a llwyddiant.

5.2 **Argymhelliad 2**: Fel rhan o broses gynllunio strategol dylai'r Hyb asesu i ba raddau mae ei gydbwysedd o weithgareddau'n cyd-fynd â'i nodau a'i amcanion.

5.3 **Argymhelliad 3**: Dylai'r Hyb asesu a yw lleihau achosion o fasnachu plant sy'n mynd ar goll yn un o'r canlyniadau bwriedig ac, os ydyw, mesur i ba raddau y cyflawnir hyn drwy ei waith monitro a rheoli perfformiad.

5.4 **Argymhelliad 4**: Dylid ystyried tystiolaeth o amrywiadau yn effaith yr Hyb ar sail lefel yr angen (er enghraifft, dywedodd y staff fod yr Hyb yn fwy effeithiol wrth weithio gyda phlant sydd mewn llai o berygl) wrth fynd ati i gynllunio'n strategol. Bydd hyn yn helpu'r Hyb i asesu i ba raddau bydd yr amrywiadau hyn yn galluogi'r Hyb i gyflawni ei nodau a'i amcanion ehangach, h.y. os nad yw'r Hyb yn cael cymaint o lwyddiant gyda phlant risg uchel gallai hyn effeithio ar y gwaith cynllunio.

*Darparu gwasanaeth*

5.5 **Argymhelliad 5**: Dylai’r Hyb gynhyrchu protocolau sylfaenol yn y meysydd canlynol er mwyn sicrhau ymarfer cyson a thryloyw:

- Proses MIRAF ac asesu risg (yn cynnwys diffiniadau o lefelau risg fel ‘catastroffig’ neu ‘ansylweddol’ gydag enghreifftiau, fel yr awgrymwyd gan ddadansoddiad y MIRAF).
- Proses ôl-drafod a gwneud penderfyniadau, yn cynnwys bod yn eglur ynghylch unrhyw feini prawf cymhwysedd; proses gyfryngu; gwaith cam-fanteisio’n rhywiol ar blant; ac ymyriadau eraill a ddarperir gan yr Hyb/ar ran yr Hyb - yn ddelfrydol o fewn yr amserlenni a’r prosesau sicrhau ansawdd mewnol.

5.6 **Argymhelliad 6**: Dylai’r Hyb barhau i ddatblygu’r MIRAF drwy barhau i sicrhau bod (a) pob gweithiwr proffesiynol a allai elwa ar neu gyfrannu ati, yn gwybod amdani a sut i’w defnyddio, (b) sicrhau bod cofnodion y MIRAF yn cael eu cadw mor gyfredol â phosibl, (c) sicrhau na ysgrifennir dros ddata matrics asesu risg y MIRAF er mwyn gallu monitro ac ystyried newid dros amser, (d) sicrhau bod rhesymau’n cael eu rhoi i egluro newidiadau i asesiadau risg, ac (e) bod problemau technegol yn cael eu hadolygu a’u datrys lle bo’n bosibl.

5.7 **Argymhelliad 7**: Dylai’r Hyb barhau i ddatblygu ei ddarpariaeth hyfforddiant.

- Dylai’r Hyb sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol a gofalwr (yn cynnwys cartrefi preswyl a hosteli) ddealltwriaeth dda o Brotocol Gwent ac, yn arbennig, gategorïau ‘absennol’ a ‘coll’ a phryd i’w defnyddio’n briodol. Efallai y bydd angen darparu mwy o hyfforddiant.
- Dylai’r Hyb sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn deall beth yw rôl yr Hyb a’u rôl mewn perthynas â’r Hyb, a fydd yn ei dro yn helpu i osgoi dyblygu gwaith. Gellid gwneud hyn drwy hyfforddiant parhaus a chynyddol a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gwneud mwy o ddefnydd o’r MIRAF lle bo’n briodol.

- Dylai'r Hyb barhau i ddarparu hyfforddiant i gymaint o weithwyr proffesiynol a gofalwyr â phosibl ac, os yn bosibl, dylai ystyried datblygu a darparu hyfforddiant gloywi. Yn y dyfodol, dylai'r Hyb gasglu ffigurau mwy manwl ar y canlynol: nifer y staff o'r holl asiantaethau sydd wedi mynychu hyfforddiant a nifer staff unedau preswyl a hosteli sydd wedi mynychu hyfforddiant.

5.8 **Argymhelliad 8**: Mae yna gyfle i'r Hyb ddatblygu ei waith fel ffynhonnell atal sylfaenol. Felly:

- Dylai'r Hyb barhau i ddatblygu ei waith 'Addysg Cymheiriaid', ochr yn ochr â darparu gweithdai i blant a theuluoedd a chyfrannu at raglenni addysg ysgolion. Bydd hyn yn galluogi'r Hyb i ddatblygu ei rôl fel ffynhonnell atal sylfaenol.
- Dylai'r Hyb barhau i ddatblygu ei gynlluniau a'i ddarpariaeth ar gyfer gwaith cyfranogiad ieuenctid, a datblygu cynlluniau i ddarparu gwybodaeth i blant ysgol a gweithdai i rieni a gofalwyr. Byddai hyn yn helpu'r Hyb i ddatblygu ei rôl fel ffynhonnell atal sylfaenol ac i ymgysylltu â'r gynulleidfa darged sef plant sydd mewn perygl o fynd ar goll am y tro cyntaf.

*Monitro a rheoli perfformiad*

5.9 **Argymhelliad 9**: Gall Llamau a'r Hyb barhau i wella darpariaeth y gwasanaeth ôl-drafod a'r ffordd mae'n monitro'r gwaith hwn drwy'r canlynol:

- Dylai'r Hyb adolygu gallu'r gwasanaeth ôl-drafod i sicrhau bod ganddo'r gallu i fodloni galw.
- Dylai'r Hyb a Llamau ystyried asesu'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfarfodydd ôl-drafod o gymharu â chyfanswm y plant sydd wedi mynd ar goll yng Ngwent, sy'n gymwys ar gyfer cyfarfodydd ôl-drafod, yn yr un cyfnod, yn ogystal â chymharu â nifer y rhai sydd wedi'u hatgyfeirio i'r gwasanaeth. Bydd hyn yn darparu argraff fwy gwybodus o'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth hwn ymysg ei gynulleidfa darged eang. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai Llamau'n cadw cofnod, ac yn adrodd ar y rhesymau pam nad yw rhai plant yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth ôl-drafod. Bydd y dull monitro hwn yn helpu'r Hyb i ddeall i ba raddau mae wedi ymgysylltu â'i gynulleidfa darged ehangach o blant sy'n mynd ar goll ac asesu darpariaeth yn unol

â hynny. Dylai’r Hyb a/neu Llamau barhau i gofnodi union nifer y cyfweliadau cyfryngu a ddarperir er mwyn mesur lefel yr allbwn.

- Gallai’r Hyb a/neu Llamau ddatblygu eu dulliau adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd yn unol â thargedau CAMPUS i asesu i ba raddau mae’r gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu wedi llwyddo i ddiwallu anghenion y rhai maent yn gweithio gyda nhw ac a gafodd achosion eu hatgyfeirio’n briodol.
- Gallai adroddiadau Llamau ddadansoddi nifer y sesiynau ôl-drafod a ddarperir i bob plentyn i roi syniad gwell o ddosbarthiad y gwasanaeth ôl-drafod ymysg defnyddwyr gwasanaethau.

5.10 **Argymhelliad 10**: Dylai’r Hyb ystyried datblygu proses fwy cadarn i oruchwylio rheolaeth a sicrhau ansawdd o fewn y tîm ei hun nad yw’n dibynnu ar un person allweddol, mewn perthynas â chwblhau a sicrhau cywirdeb adroddiadau MIRAF er enghraifft. Gellid gwneud hyn drwy gymryd hapsampl neu ddatblygu a gweithredu dulliau adborth gan randdeiliaid i ddangos effaith ei waith ar wella ymarfer. Gallai hyn gynnwys cael gwybodaeth gan randdeiliaid sydd mewn cysylltiad â’r Hyb. Gallai adborth gynnwys: (a) nodweddion cefndir y rhanddeiliaid, (b) pam eu bod mewn cysylltiad â’r Hyb, (c) sut wnaeth yr Hyb helpu, (d) pa mor fodlon oeddynt gyda’r Hyb, a (e) sut gallai’r Hyb wella yn y dyfodol.

5.11 **Argymhelliad 11**: Er mwyn datblygu prosesau monitro a rheoli perfformiad ledled gwaith yr Hyb argymhellwn y dylai’r Hyb a Llamau wneud y canlynol wrth fonitro ac adrodd:

- casglu a dadansoddi data’n gyson dros amser
- darparu gwybodaeth fethodolegol gyda data monitro
- casglu a dadansoddi’r data mewn perthynas â chanlyniadau bwriedig, fel dadansoddi niferoedd plant coll o ran y rhai sydd â chynllun amddiffyn plant neu gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ôl-drafod sy’n berthnasol i’r hyn mae’r gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni.
- adrodd ar ddata monitro a’i gymharu â thargedau CAMPUS i asesu a dangos cynnydd a llwyddiant.

*Gwerth am arian*

5.12 **Argymhelliad 12**: Er mwyn dangos gwerth am arian a chostau a buddion dylai'r Hyb geisio casglu data pendant a meintiol ar y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer: a) plant penodol, ac yn ddelfrydol b) yr holl blant sy'n derbyn cymorth ganddo.

# 6. Atodiad 1: Astudiaethau achos yr ymgynghoriad

## Astudiaeth achos un

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

6.1 Cymerodd y bobl ganlynol ran yn yr astudiaeth achos:

- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un person ifanc
- Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb-yn-wyneb ar wahân gyda dau weithiwr proffesiynol: gweithiwr cymorth o'r lleoliad byw â chymorth a'i weithiwr cymdeithasol plant sy'n derbyn gofal.

*Cyd-destun yr unigolyn*

6.2 Mae'r person ifanc hwn yn 15 oed, yn derbyn gofal o dan Orchymyn Gofal Llawn ac yn byw mewn lleoliad byw â chymorth. Mae wedi'i wahardd o addysg brif ffrwd ar hyn o bryd ond yn cael sesiwn gyda thiwtor am ddwy awr bob wythnos. Mae wedi mynd ar goll 12-13 gwaith ers mis Awst 2014. Rhoddodd y person ifanc y rhesymau canlynol dros fynd ar goll.

- Mae'n diflasu pan mae ei ofalwyr yn symud ei deledu am 11pm ac mae'n methu cysgu yn aml felly mae'n mynd allan.
- Mae ganddo ffrind y mae'n hoffi ei gyfarfod yn y nos.
- Mae'n hoffi mynd i weld ei fam.

6.3 Nododd y gweithiwr cymdeithasol a'r gofalwr hefyd fod ei ffrind hwn a'i fam yn 'ffactorau dylanwadol' o ran pam mae'n mynd allan. Eglurodd y ddau hefyd fod y risgiau canlynol yn bresennol yn nhŷ ei fam: trais domestig a chamdriniaeth gorfforol ac emosiynol posibl, esgeuluso plentyn a chamddefnyddio sylweddau.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

6.4 Dywedodd y person ifanc ei fod wedi cael cyfarfod ôl-drafod amserol:

> Un tro daeth rhywun o wasanaeth ôl-drafod Llamau i siarad gyda fi ar ôl i fi fynd ar goll. Roedd hyn tua dau ddiwrnod ar ôl i fi fynd ar goll. Fe ddaethon nhw i siarad gyda fi fan hyn. Fe wnaeth helpu tipyn bach. Fe wrandawon nhw arna i, rhoi gwybodaeth i mi a'u rhif ffôn. Fe alla i ffonio os dwi eisiau ond dwi ddim yn gweld y pwynt.

6.5 Cadarnhaodd ei weithiwr cymdeithasol a'i ofalwr eu bod yn gwybod iddo gael cyfarfod ôl-drafod ac roeddynt yn teimlo ei fod yn amserol. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo ei fod yn:

> ddefnyddiol gan ei fod yn dda iddo gael rhywun arall i wrando arno ac i siarad yn agored ag ef. Roedd hi'n ddefnyddiol hefyd fod rhywun yn cyflwyno'r un negeseuon â fi iddo.

6.6 Dywedodd y person ifanc na wnaeth y gweithiwr ôl-drafod ddarparu unrhyw eiriolaeth bellach h.y. ni chafodd ei atgyfeirio i unrhyw wasanaeth arall drwy'r gweithiwr ôl-drafod.

6.7 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol nad oedd yr Hyb yn cyfrannu llawer at yr achos hwn o ran rhannu gwybodaeth gan ei bod hi wedi bod yn weithiwr cymdeithasol i'r person ifanc am dros chwe blynedd ac yn llwyr ymwybodol o'r risgiau a'r problemau oedd yn effeithio ar ei ymddygiad, er eu bod yn gweld mai hyn (h.y. rhannu gwybodaeth drwy'r MIRAF) yw'r elfen fwyaf defnyddiol o gyfraniad yr Hyb mewn achosion eraill.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

6.8 Ni dderbyniodd y gweithiwr cymdeithasol unrhyw adborth gan y gweithiwr ôl-drafod yn dilyn y cyfarfod ôl-drafod. Roedd y person ifanc yn teimlo bod gan weithwyr proffesiynol ddealltwriaeth dda yn gyffredinol ac nad oes rhaid iddo ailadrodd ei stori lawer o weithiau. Fodd bynnag, dywedodd y person ifanc nad oedd yn teimlo eu bod yn cydweithio i'w helpu. Ond roedd y gofalwr yn teimlo bod gan weithwyr proffesiynol, fel y gweithiwr cymdeithasol, y wybodaeth gywir a'u bod yn cydweithio'n dda i gefnogi'r person ifanc.

6.9 Dywedodd y person ifanc, y gweithiwr cymdeithasol a'r gofalwr y gallai cyfraniad yr heddlu fod wedi bod yn wahanol yn yr achos hwn. Roedd y person ifanc yn teimlo bod yr heddlu yn ei drin fel troseddwr am fynd ar goll:

> Dyw'r heddlu ddim yn deall. Maen nhw'n fy nhrin i fel troseddwr pan dwi'n mynd ar goll. Ond dwi heb droseddu, dim ond mynd mas

> ydw i pan na ddylwn i. Ddylwn i ddim bod mewn trafferth gyda'r heddlu.

6.10 Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod:

> Yr heddlu'n teimlo'n rhwystredig pan fyddwn ni'n gofyn iddyn nhw fynd i'w nôl ac nad ydyn nhw'n ei ystyried fel person coll go iawn.

6.11 Dywedodd y gofalwr nad oedd hi'n credu bod gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o sefyllfa'r person ifanc, er eu bod yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau cymdeithasol. Nid oedd hi'n glir a oedd yr heddlu yn gwneud defnydd da o'r MIRAF na'r wybodaeth arni am y risgiau y mae'r person ifanc yn eu hwynebu.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

6.12 Nid oedd unrhyw un o'r rhai a holwyd yn teimlo bod cyfraniad yr Hyb wedi cael effaith ar y person ifanc, o ran y tebygolrwydd o fynd ar goll eto neu ei brofiad tebygol pan fydd ar goll. Roedd y person ifanc, y gweithiwr cymdeithasol a'r gofalwr yn teimlo bod y person ifanc yn debygol iawn o fynd ar goll eto.

6.13 Dywedodd y person ifanc ei fod yn teimlo'n ddiogel ar y cyfan pan mae ar goll a'i fod yn mynd i dŷ ei fam os oes unrhyw broblemau. Fodd bynnag, nid oedd y gweithiwr cymdeithasol a'r gofalwr yn teimlo bod y person ifanc yn gwybod sut i aros yn ddiogel ac osgoi niwed pan mae ar goll, gan awgrymu nad yw tŷ ei fam yn lle diogel iddo.

*Meysydd i'w gwella*

6.14 Nid oedd gan y gweithiwr cymdeithasol na'r person ifanc unrhyw awgrymiadau ar sut y gallai'r Hyb neu weithwyr proffesiynol cysylltiedig wella'r ffordd roedd wedi ymdrin â'r achos. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn disgwyl y byddai mwy o gyfraniad gan yr Hyb pe bair person ifanc yn parhau i fynd ar goll yn y dyfodol. Dywedodd y gofalwr y byddai'r person ifanc yn elwa ar gael lle mewn sefydliad addysgol.

**Astudiaeth achos dau**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

6.15 Bu'r canlynol yn cymryd rhan yn yr astudiaeth achos:

- Cafwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un person ifanc
- Cafwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb â mam y person ifanc a'i gŵr, sef llystad y person ifanc
- Cafwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb â swyddog cyfryngu proffesiynol sy'n gweithio gyda'r person ifanc

*Cyd-destun yr unigolyn*

6.16 Mae'r person ifanc yn 14 oed, yn byw gyda'i fam a'i lystad yng nghartref y teulu ac mae ganddo gofnod presenoldeb da yn yr ysgol. Mae wedi mynd ar goll ddwywaith ers hydref 2014.

6.17 Y rheswm a roddodd y person ifanc a'r gweithiwr cyfryngu i egluro pam aeth ar goll oedd bod ei deulu'n ffraeo ac nad oedd yn cyd-dynnu'n dda â'i rieni. Dywedodd ei rieni eu bod nhw'n credu iddo fynd ar goll gan ei fod wedi 'gwylltio', 'drysu' ac 'nad yw'n derbyn y rheolau'.

6.18 Ac eithrio mynd ar goll, yr unig ffactor risg hysbys arall i'r person ifanc hwn oedd ei fod wedi dwyn ddwywaith, er ei fod wedi datgelu hyn i'w athro yn fuan wedyn. Dywedodd hefyd ei fod yn poeni fod ei raddau yn yr ysgol wedi dechrau dirywio. Dywedodd mam y person ifanc ei fod wedi gweld rhywfaint o drais domestig pan oedd yn blentyn.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

6.19 Dywedodd y person ifanc, ei rieni a'r swyddog cyfryngu fod y person ifanc wedi cael cyfarfod ôl-drafod yn fuan ar ôl iddo fynd ar goll. Roedd y person ifanc yn teimlo bod y gweithiwr ôl-drafod wedi gwrando arno, wedi rhoi cyngor ac arweiniad iddo ac wedi '*gwneud i mi sylweddoli ochr ddifrifol'* mynd ar goll, er nad oedd yn teimlo i hynny newid ei ymddygiad.

6.20 Roedd pawb a holwyd yn egluro bod y person ifanc a'i deulu wedi'u hatgyfeirio i wasanaeth cyfryngu a ddarperir gan yr Hyb i deuluoedd gan y gweithiwr ôl-drafod.

6.21 Dywedodd y person ifanc fod y gweithiwr cyfryngu'n ddefnyddiol gan ei bod:

> 'Yn deall a gwrando. Pe na bai hi yno byddai wedi bod yn eithaf lletchwith i mi siarad gyda fy mam ynglŷn â pham es i ar goll. Roedd hi'n help ac roedd hi'n haws siarad gyda fy rhieni pan oedd hi yno. Ro'n i'n gallu dweud sut ro'n i'n teimlo, fy marn i ar bethau. Y gweithiwr cyfryngu oedd yn deall y sefyllfa orau o blith pawb – fe helpodd hi fi i gyfathrebu gyda fy nheulu. Fe soniodd hi am y peryglon o fynd ar goll hefyd'.

6.22 Roedd y gweithiwr cyfryngu yn teimlo bod y wybodaeth am y person ifanc ar y MIRAF yn ddefnyddiol gan ei bod yn 'gwybod os oedd yna broblemau yn y gorffennol, sut mae'n perfformio yn yr ysgol – y gallai gael y darlun cyfan'. Dywedodd y byddai wedi cymryd llawer mwy o amser i gasglu'r wybodaeth hon heb y MIRAF. Roedd y gweithiwr cyfryngu'n teimlo bod y MIRAF wedi helpu i 'ddwyn ynghyd' yr holl weithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda'r person ifanc ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol iddynt, yn enwedig gan nad oes ganddo weithiwr cymdeithasol. Fodd bynnag, dywedodd hefyd nad oedd yn darparu cymaint o wybodaeth ag a fyddai ar gael pe bai gan y person ifanc weithiwr cymdeithasol.

6.23 Mewn partneriaeth ag ysgol y person ifanc, atgyfeiriodd y gweithiwr cyfryngu y teulu at Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaeth rheoli dicter ond, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y person ifanc yn dal i aros am ganlyniad yr atgyfeiriadau hyn.

6.24 Dywedodd mam y person ifanc nad oedd gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth ac yn gweithio mewn partneriaeth: 'Rydyn ni'n teimlo ein bod ni'n gorfod ailadrodd y stori drosodd a throsodd wrth wahanol bobl. Dyw'r gweithwyr proffesiynol ddim yn cydweithio, mae pethau'n dal i fod ormod ar wahân'.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

6.25 Dywedodd y person ifanc fod yr heddlu a'r ysgol wedi bod yn rhan o'r achos wedi iddo fynd ar goll. Roedd yn teimlo bod yr heddlu wedi bod o gymorth ac yn 'grêt' y tro cyntaf iddo fynd ar goll ond eu bod yn 'reit fygythiol' yr ail waith. Roedd y person ifanc yn teimlo bod ei weithiwr cymorth yn yr ysgol o gymorth – 'Ro'n i'n arfer siarad gyda hi. Roedd hi'n gwybod beth oedd fy mhroblemau – gyda hi ro'n i'n siarad fwyaf. Roedd hi'n rhoi cyngor i fi ynglŷn â beth i'w wneud pe bawn i'n mynd ar goll'. Ond dywedodd na ddefnyddiodd ei chyngor a'i fod wedi mynd ar goll eto beth bynnag.

6.26 Fodd bynnag, roedd mam y person ifanc yn teimlo bod yr ysgol wedi '*troi cefn arno'.*

6.27 Roedd y gweithiwr cyfryngu'n teimlo bod yr holl weithwyr proffesiynol yn cydweithio'n dda o'i amgylch.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

6.28 Aeth y person ifanc ar goll eto ar ôl y cyfarfod ôl-drafod a'r cyfryngu yn ôl y swyddog cyfryngu, ond dim ond unwaith, Dywedodd y person ifanc ei fod yn teimlo ei bod yn llai tebygol y bydd yn mynd ar goll eto, ond fod hynny'n dal yn bosibilrwydd a'i fod:

> 'Yn cymryd un dydd ar y tro. Dwi ddim yn gwybod os gwna i redeg i ffwrdd eto. Dwi'n gallu ffonio [gweithiwr cyfryngu] os dwi angen ond dwi'n meddwl ei bod hi wedi gwneud digon. Er ein bod ni'n ceisio defnyddio ei chyngor hi rydyn ni'n mynd nôl i'r dechrau o hyd. Dwi ddim yn gwybod os ydi hi wedi gorffen gyda ni eto neu beidio - ydi hi?'

6.29 Nid oedd y person ifanc yn teimlo bod y rheswm pam aeth ar goll wedi'i ddatrys; nid yw'n teimlo ei fod yn cael mwy o gefnogaeth gan ei rieni ac maent yn dal i ffraeo. Nid oedd ei fam ychwaith yn teimlo bod y gwasanaeth cyfryngu wedi gwneud gwahaniaeth i'r rheswm sylfaenol pam yr aeth ar goll, gan ddatgan: 'Dyw e heb wneud gwahaniaeth, fawr ddim gwahaniaeth i'w ddicter a'i ymddygiad'.

6.30 Dywedodd y gweithiwr cyfryngu ei bod 'yn gobeithio bod y perygl iddo fynd ar goll eto wedi gostwng'. Yn wahanol i'r person ifanc a'i deulu roedd hi'n credu bod y rheswm pam aeth ar goll wedi'i ddatrys i raddau helaeth yn sgil y cyfryngu. Er enghraifft, dywedodd:

> 'Mae ei berthynas gyda'i lystad wedi gwella – maen nhw wedi gallu siarad gyda'i gilydd. Mae'n gallu siarad â'i rieni yn well ac osgoi ei ffactorau sbarduno'.

6.31 Fodd bynnag, roedd y person ifanc a'r gweithiwr cyfryngu'n teimlo y byddai'r person ifanc yn fwy tebygol o osgoi niwed a pherygl pe byddai'n mynd ar goll eto gan ei fod yn gwybod y dylai fynd i dŷ ei fam-gu a'i dad-cu, ar unrhyw adeg o'r nos, os yw'n mynd ar goll.

*Meysydd i'w gwella*

6.32 Dywedodd y person ifanc a'i rieni yr hoffent gael rhagor o gymorth, megis cymorth i reoli dicter, Teuluoedd yn Gyntaf neu therapi i deuluoedd. Dywedodd y person ifanc y byddai'n hoffi i'r gweithiwr cyfryngu ymweld unwaith y mis. Nid oedd y person ifanc na'i rieni'n siŵr a oedd ymyrraeth y gwasanaeth cyfryngu wedi dod i ben ai peidio ac roeddynt yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad am hyn.

6.33 Roedd y gweithiwr cyfryngu'n teimlo y byddai wedi bod yn fanteisiol atgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf yn gynt.

**Astudiaeth achos tri**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

6.34 Bu'r canlynol yn rhan o'r astudiaeth achos hon:

- Cynhaliwyd cyfweliad ffôn gydag un person ifanc.
- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un gweithiwr cymdeithasol (tîm 16+).
- Nid oedd aelod o'r teulu na gofalwr ar gael i'w cyfweld yn yr achos hwn.

*Cyd-destun yr unigolyn*

6.35 Eglurodd y person ifanc 17 oed fod ei lleoliad gofal maeth yn hysbysu'r heddlu dro ar ôl tro ei bod hi ar goll gan ei bod yn dychwelyd yno 30 munud ar ôl a bennwyd ar ôl bod yn ymweld â ffrindiau oedd yn byw ymhell i ffwrdd. Hysbyswyd yr heddlu ei bod ar goll deirgwaith yn 2014.

6.36 Mae'r person ifanc yn derbyn gofal o dan Orchymyn Gofal Llawn a dywedodd y gweithiwr cymdeithasol ei bod hi'n araf yn datblygu ac yn 'hawdd dylanwadu arni'. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo y byddai mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol pe byddai'n mynd ar goll. Nid oedd unrhyw ffactorau risg eraill yn gysylltiedig â'r achos hwn. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod y person ifanc yn gwrando'n dda ac yn derbyn cyngor ac arweiniad.

6.37 Nid yw'r heddlu wedi'u hysbysu bod y person ifanc wedi bod ar goll ers mis Chwefror 2015.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

6.38 Roedd y person ifanc yn cofio ei bod wedi cael cyfarfod ôl-drafod oedd wedi para tua hanner awr. Cynhaliwyd y cyfarfod yn ei chartref ac roedd yn amserol. Dywedodd bod y cyfarfod yn brofiad cadarnhaol a bod y gweithiwr ôl-drafod yn 'wrandäwr da' gyda lefel dda o ddealltwriaeth. Roeddynt wedi trafod beth oedd yn 'rhesymol iddi hi' ac yn 'rhesymol i'w gofalwr' a pha weithgareddau y gallai eu gwneud yn lleol. Buont yn siarad â gofalwr maeth y person ifanc hefyd. Yn sgil y trafodaethau hyn estynnwyd amser dychwelyd y person ifanc o 9pm i 9:30pm. Er fe ddywedodd y person ifanc mai chwaer ei gofalwr maeth oedd i ddiolch am hyn.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

6.39 Roedd y person ifanc yn teimlo bod ei hathrawon yn y coleg a'i gofalwyr yn bobl y gallai ymddiried ynddynt a'u bod yn deall ei sefyllfa yn dda. Dywedodd fod ganddi brofiadau cymysg o gymorth gwaith cymdeithasol, gan ddweud 'er bod rhai wedi bod o gymorth, dyw eraill

ddim wedi bod cystal, gan gymryd yn ganiataol weithiau eu bod yn gwybod beth sydd orau i fi heb wrando arna i'.

6.40 Nid oedd y person ifanc yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol wedi cydweithio'n dda i'w chefnogi. Er enghraifft, ni ddaeth ei hathrawon i gyfarfod ei gweithwyr cymdeithasol gan eu bod yn rhy brysur.

6.41 Nid oedd y gweithiwr cymdeithasol yn siŵr a oedd y person ifanc wedi cael cyfarfod ôl-drafod ar ôl iddi fynd ar goll o'r blaen. Nid oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi defnyddio'r MIRAF gyda'r achos hwn, er iddi ddweud ei bod yn ddefnyddiol mewn achosion eraill.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

6.42 Dywedodd y person ifanc iddi 'roi'r gorau i ddod i mewn yn hwyr yn sgil y cyfarfod'. Mae hyn yn awgrymu bod yr Hyb wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o fynd ar goll yn y sefyllfa hon. Eglurodd y person ifanc hefyd ei bod hi'n cydymffurfio â'r amser dychwelyd bellach gan ei bod: 'Yn byw gyda theulu maeth gwahanol, sydd llawer agosach at fy ffrindiau felly does dim rhaid i mi ddod i mewn yn hwyr'.

6.43 O ran ei bod hi'n llai tebygol y byddai'r person ifanc yn mynd ar goll a'r gostyngiad yn nifer yr achosion o hynny, nid oedd y gweithiwr cymdeithasol yn priodoli hynny i waith yr Hyb. Yn hytrach, roedd yn priodoli hyn i'r ffactorau canlynol:

- Newidiodd y person ifanc ei lleoliad maeth i un a oedd yn agosach at ei ffrindiau a'i theulu, a oedd yn ei gwneud hi'n haws iddi gyrraedd gartref cyn yr amser a bennwyd.
- Mae'r person ifanc wedi aeddfedu.
- Mae'r person ifanc yn treulio mwy o amser gyda'i modryb bellach.

*Meysydd i'w gwella*

6.44 Ni nododd y person ifanc na'i weithiwr cymdeithasol unrhyw feysydd i'w gwella ar gyfer yr Hyb nac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ar achos y person ifanc.

**Astudiaeth achos pedwar**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

6.45 Bu'r canlynol yn rhan o'r astudiaeth achos hon:

- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un person ifanc gyda gweithiwr ôl-drafod yn bresennol.
- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb â dau weithiwr proffesiynol yr un pryd: swyddog cynhwysiant ysgol a gweithiwr cymdeithasol tîm cymorth teulu (ar secondiad o dîm SERAF Barnardo's).
- Nid oedd aelod o'r teulu na gofalwr ar gael i'w cyfweld yn yr achos hwn.

*Cyd-destun yr unigolyn*

6.46 Nid oedd unrhyw gofnod bod y ferch ifanc 16 oed hon wedi bod ar goll ers mis Ionawr 2015, er nad oes ganddi gyfeiriad parhaol yn ddiweddar, na gofalwr penodedig, a fyddai wedi hysbysu'r awdurdodau ei bod ar goll.

6.47 Nodwyd nifer o ffactorau risg mewn perthynas â'r person ifanc hwn, yn cynnwys: digartrefedd, camddefnyddio sylweddau a wynebu cam-fanteisio rhywiol.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

6.48 Dywedodd y person ifanc a'r gweithiwr cymdeithasol cymorth i deuluoedd fod y person ifanc wedi bod mewn sawl cyfarfod ôl-drafod ar ôl mynd ar goll. Nid oedd swyddog cynhwysiant yr ysgol yn gwybod am rôl yr Hyb yn yr achos hwn.

6.49 Eglurodd y person ifanc nad oedd hi am ymwneud â'r gweithiwr ôl-drafod ar y dechrau gan 'Fy mod i'n cymryd cyffuriau'. Fodd bynnag, roedd y person ifanc yn teimlo ei bod hi'n fuddiol gallu siarad â'i gweithiwr ôl-drafod ar ôl iddi roi'r gorau i gymryd cyffuriau. Roedd yn teimlo bod y cyfarfodydd ôl-drafod yn amserol a chyfleus ac yn teimlo bod 'rhywun yn gwrando arna i*'* ac nad oedd y gweithiwr ôl-drafod yn 'siarad uwch fy mhen i a ddim yn siarad gyda fi fel tasen i'n bump oed. Nid

fel fy ngweithiwr cymdeithasol i'. Eglurodd ei bod yn derbyn cymorth parhaus gan y gweithiwr ôl-drafod.

6.50 Eglurodd y gweithiwr cymdeithasol cymorth i deuluoedd ei bod hi'n credu bod cymorth y gweithiwr ôl-drafod wedi bod o fudd i'r person ifanc am resymau tebyg h.y. mae wedi rhoi rhywun annibynnol nid statudol i'r person ifanc siarad ag ef.

6.51 Dywedodd y person ifanc hefyd fod y gweithiwr ôl-drafod wedi ei helpu i gael gafael ar wasanaethau eraill a'i helpu i fynychu ei hapwyntiadau, fel CAMHS.

6.52 Ni ddefnyddiodd y gweithiwr cymdeithasol cymorth i deuluoedd y MIRAF mewn perthynas â'r ferch ifanc hon, er ei bod wedi gwneud gyda phobl ifanc eraill. Nid yw'r swyddog cynhwysiant wedi defnyddio'r MIRAF gyda'r ferch ychwaith, ond mae'n ymwybodol bod yna rif MIRAf ar ei chyfer.

6.53 Mae'r gweithiwr cymdeithasol cymorth i deuluoedd wedi mynychu cyfarfodydd strategaeth yn ymwneud â'r person ifanc ac mae'r gweithiwr ôl-drafod wedi bod yn rhan o'r rhain hefyd. Dywedodd fod y gweithiwr ôl-drafod wedi cyfrannu'n dda at y cynlluniau drwy, er enghraifft, atgyfeirio'r person ifanc i CAMHS a'i fod 'yn gwneud mwy nag y dylai hyd yn oed'. Roedd y person ifanc hefyd yn ymwybodol bod y gweithiwr ôl-drafod wedi 'siarad â'm mam-gu a'm ngweithiwr cymdeithasol'.

6.54 Roedd y gweithiwr cymdeithasol cymorth i deuluoedd yn teimlo bod yr Hyb wedi gwneud digon i gynorthwyo'r person ifanc ac wedi gwneud 'y gorau y gallent'.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

6.55 Ac eithrio'r gweithiwr ôl-drafod roedd y person ifanc yn teimlo mai ei gweithiwr cymorth camddefnyddio sylweddau a'i gweithiwr cymdeithasol cyntaf oedd yn ei deall orau.

6.56 Fodd bynnag, roedd y person ifanc yn teimlo ei bod yn gorfod ailadrodd ei stori dro ar ôl tro wrth weithwyr proffesiynol gwahanol.

Roedd hi'n teimlo y dylai gweithwyr proffesiynol 'cael gafael ar fy stori ar y system, felly pam maen nhw'n fy holi drwy'r amser'. Yn arbennig, nid oedd yn hoffi gorfod egluro ei hun wrth weithwyr proffesiynol roedd hi newydd gyfarfod â nhw, fel swyddogion yr heddlu a nyrsys. Roedd hi'n teimlo bod gormod o weithwyr proffesiynol yn ymwneud â'r achos ar brydiau a dywedodd fod dros ddeg gweithiwr proffesiynol wedi bod yn gweithio gyda hi ar brydiau.

6.57 Nid oedd gan y person ifanc brofiadau cadarnhaol o ymwneud â'r heddlu.

6.58 Eglurodd y swyddog cynhwysiant addysg ei bod wedi gallu cynorthwyo'r person ifanc i fynychu rhaglen Aspire Cymunedau yn Gyntaf a phrentisiaeth ddau ddiwrnod yr wythnos mewn salon trin gwallt.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

6.59 Dywedodd y person ifanc nad yw'n mynd ar goll mwyach gan nad yw hi'n cymryd cyffuriau nac yn yfed alcohol bellach. Priodolodd hyn yn bennaf i'r newid yn ei 'meddylfryd a'i ffordd o feddwl' ei hun. Fodd bynnag, dywedodd fod ei gweithiwr ôl-drafod a'r gweithiwr cymorth camddefnyddio sylweddau 'yn rhoi cyngor a chefnogaeth i mi ac yn fy helpu i gadw oddi ar y cyffuriau' yn ystod y cyfnod hwn. Eglurodd hefyd ei bod yn arfer tecstio ei gweithiwr ôl-drafod pan oedd hi'n teimlo'n isel neu'n flin.

6.60 Er bod y person ifanc wedi egluro nad oedd yn mynd ar goll mwyach a'i bod yn priodoli hyn yn rhannol i'r gweithiwr ôl-drafod, nid oedd y gweithiwr cymdeithasol cymorth i deuluoedd a'r swyddog cynhwysiant yn teimlo bod y problemau a oedd wrth wraidd y patrwm o fynd ar goll wedi'u datrys. Er nad yw hi wedi bod ar goll yn swyddogol, mae wedi bod yn cysgu mewn nifer o lefydd gwahanol (*syrffio soffas*) ac yn treulio amser gyda pherthynas i ddyn hŷn a oedd wedi cam-fanteisio'n rhywiol arni yn y gorffennol. Maent yn credu hefyd ei bod hi'n dal i ddefnyddio canabis.

6.61 Nid oedd y swyddog cynhwysiant na'r gweithiwr cymdeithasol cymorth i deuluoedd yn teimlo'n hyderus y gallai'r person ifanc aros yn ddiogel pe bai ar goll ac roeddynt yn teimlo ei bod hi'n debygol iawn y byddai rhywun yn cam-fanteisio'n rhywiol arni.

*Meysydd i'w gwella*

6.62 Roedd y person ifanc yn teimlo y gallai ei gweithiwr cymdeithasol wella'r ffordd y mae'n gweithio gyda hi gan ei bod yn teimlo bod eu perthynas yn canolbwyntio ar lofnodi gwaith papur a chyfnewid arian yn hytrach na chyfathrebu a'i chefnogi. Er nad yw'r person ifanc yn hoffi'r heddlu, nid oedd ganddi unrhyw awgrymiadau am sut y gallent wella'r ffordd roeddynt yn gweithio gyda hi. Roedd y person ifanc yn teimlo y gallai'r ysgol fod wedi anfon gwaith mwy priodol ar ei chyfer yn rheolaidd pan roedd yn yr ysbyty. Roedd hefyd yn teimlo nad oedd y cwrs a gynigiwyd iddi ers gadael ysgol yn briodol iddi gan ei fod ar gyfer pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac y gallai'r ysgol fod wedi cynnig cyfle a oedd yn fwy addas i'w hanghenion hi.

6.63 Roedd y gweithiwr cymdeithasol cymorth i deuluoedd yn teimlo y gellid cael mwy o eglurhad am rôl y gwahanol weithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r person ifanc, er mwyn osgoi dyblygu gwaith a bod sawl un yn gofyn yr un cwestiynau i'r person ifanc. Roedd y gweithiwr cymorth i deuluoedd a'r swyddog cynhwysiant hefyd yn teimlo y gellid bod wedi gweithio mewn partneriaeth i fwy o raddau yn yr achos hwn, gan nad oeddynt yn ymwybodol o agweddau pwysig ar sefyllfa'r person ifanc o ran y sawl wnaeth gam-fanteisio'n rhywiol arni.

**Astudiaeth achos pump**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

6.64 Bu'r canlynol yn rhan o'r astudiaeth achos hon:

- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un person ifanc.
- Cynhaliwyd grŵp ffocws aml-asiantaeth a oedd yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol canlynol: gweithiwr iechyd rhywiol (nad oedd wedi gweithio gyda'r person ifanc o'r blaen); ymarferydd

arweiniol o Choices, asiantaeth lleihau niwed o gamddefnyddio sylweddau, a oedd wedi cyfarfod y person ifanc ddwywaith; a gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd a gweithiwr cymdeithasol i fyfyrwyr; a gweithiwr prosiect o'r hostel lle mae'r person ifanc yn byw, er nad oedd yn weithiwr allweddol i'r person ifanc.

- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un o'r gweithwyr cymorth yn yr hostel lle mae'r person ifanc yn byw er nad hi oedd gweithiwr allweddol y person ifanc.

*Cyd-destun yr unigolyn*

6.65 Yn ôl y MIRAF, mae'r ferch ifanc hon wedi bod yn mynd ar goll dro ar ôl tro o dŷ ei thad a '*bron yn sicr*' o fynd ar goll eto ac yn wynebu peryglon mawr pan mae'n mynd ar goll, yn cynnwys: camddefnyddio cryn dipyn o gyffuriau, cymdeithasu â ffrindiau hŷn mewn dinasoedd eraill. Camfanteisiwyd yn rhywiol arni yn y gorffennol pan aeth ar goll. Fodd bynnag, nid yw wedi bod ar goll ers symud i leoliad byw â chymorth neu ers mis Chwefror 2015.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

6.66 Dywedodd y person ifanc ei bod wedi cael sesiwn ôl-drafod tua thair wythnos ar ôl i'r awdurdodau gael gwybod ei bod hi ar goll o dŷ ei thad. Cafodd gyfle i siarad â'r gweithiwr ôl-drafod gyda'i thad yn bresennol ac ar ei phen ei hun. Roedd yn teimlo bod y gweithiwr ôl-drafod yn canolbwyntio ar y rhesymau yr oedd hi'n mynd ar goll. Dywedodd y person ifanc nad oedd hi'n teimlo bod hyn yn fuddiol ond ei bod yn teimlo bod rhywun yn '*gwrando arni*', bod y gweithiwr ôl-drafod yn '*deall ei sefyllfa*' a chafodd daflenni am gyffuriau.

6.67 Eglurodd y gweithwyr cymdeithasol mai'r Hyb oedd wedi atgyfeirio'r person ifanc i'r gwasanaethau cymdeithasol yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, nid oedd y gweithwyr cymdeithasol wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Hyb yn yr achos hwn ers yr atgyfeiriad cyntaf. O ganlyniad i'r gwasanaethau cymdeithasol, atgyfeiriwyd y person ifanc i gymorth iechyd rhywiol a chamddefnyddio sylweddau.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

6.68 Roedd y person ifanc yn teimlo bod cyfraniad Choices, y gofalwyr yn ei hostel a'i hysgol wedi bod yn fuddiol gan eu 'bod yn fy neall yn dda'. Fodd bynnag, nid yw'n credu bod cyfraniad gweithwyr cymdeithasol wedi bod yn fuddiol gan eu bod yn 'dweud wrtha i ble dwi'n cael mynd a thŷ pwy dwi'n cael mynd iddo'.

6.69 Roedd y person ifanc yn teimlo ei bod yn gorfod ailddweud ei stori ychydig o weithiau ond nad oedd hynny'n ei phoeni mewn gwirionedd. Roedd hi'n teimlo bod gweithwyr proffesiynol wedi cydweithio'n dda ar brydiau i'w helpu hi. Er enghraifft, dywedodd eu bod wedi cydweithio'n dda i'w chefnogi hi a threfnu ei budd-daliadau pan oedd hi yn yr ysbyty.

6.70 Cytunodd y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn y grŵp ffocws aml-asiantaeth nad yw'r ysgol yn gyson o ran y ffordd mae'n hysbysu'r heddlu bod y person ifanc ar goll. Dywedodd y gweithwyr cymdeithasol hefyd, er nad yw'r person ifanc wedi bod ar goll ers mis Chwefror, yn bennaf oherwydd ei bod hi'n dweud wrth ei gweithwyr cymorth ble mae'n mynd, mae'n absennol yn aml ac yn wynebu risgiau sylweddol.

6.71 Dywedodd y gofalwr/gweithwyr cymorth o'r lleoliad byw â chymorth eu bod yn ddryslyd iawn ynglŷn â phryd ddylent hysbysu rhywun bod y person ifanc ar goll ac a ddylent wneud hynny, neu a yw hi'n fwy priodol dweud ei bod hi'n 'absennol'. Dywedodd y gofalwyr/gweithwyr cymorth nad oeddynt yn teimlo'n hyderus bod yr heddlu yn barod i '*fynd i weld ei bod hi'n iawn'* os oeddynt yn eu hysbysu ei bod yn absennol. Nid oeddynt yn credu bod yr heddlu yn defnyddio'r MIRAF ddigon pan maent wedi'u hysbysu bod y person ifanc yn absennol gan nad yw'n ymddangos bod y wybodaeth berthnasol ganddynt am y person ifanc a'u bod yn mynd trwy'r holl gwestiynau eto, a oedd yn gallu cymryd hyd at 40 munud.

6.72 Nid oedd dau o'r gweithwyr proffesiynol yn gwybod am fodolaeth y MIRAF. Roedd y ddau weithiwr cymdeithasol wedi clywed am y

ffurflen ond nid oeddynt yn siŵr beth oedd ei phwrpas na sut i'w defnyddio.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

6.73 Roedd y person ifanc yn teimlo ei bod hi'n llai tebygol o fynd ar goll nawr a dywedodd fod yr Hyb 'wedi gwneud gwahaniaeth' ond nid oedd yn credu mai ymyrraeth yr Hyb oedd yn golygu ei bod hi'n llai tebygol o fynd ar goll. Yn hytrach, eglurodd ei bod: 'Wedi tyfu i fyny mwy a fydda i ddim yn mynd ar goll cymaint eto'. Yn ogystal â theimlo ei bod wedi 'tyfu i fyny', rhoddodd y rhesymau canlynol i egluro pam ei bod hi'n llai tebygol o fynd ar goll:

- Mae hi nawr yn fwy tebygol o ddweud wrth ei gweithwyr cymorth ble mae hi fel nad ydyn nhw'n hysbysu'r heddlu ei bod ar goll.
- Mae'n teimlo cywilydd pan mae'r heddlu'n mynd i dai ei ffrindiau pan mae hi ar goll, felly nid yw am i rywun hysbysu ei bod ar goll.
- Mae un o'i hathrawon wedi egluro'r peryglon o fynd ar goll iddi ac wedi'i darbwyllo o'r angen i ddychwelyd i'r hostel erbyn amser penodol.
- Mae'n gwybod, os yw hi'n mynd ar goll yn aml, y gallai'r hostel ofyn iddi adael ac y byddai'n gorfod mynd i fyw yn y Fenni, ni fyddai'n hoffi hynny gan ei fod ymhellach i ffwrdd.

6.74 Fodd bynnag, roedd yr holl weithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn y grŵp ffocws yn cytuno, yn unol â'r MIRAF, ei bod hi 'bron yn sicr' y byddai hi'n mynd ar goll eto.

6.75 Roedd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos y gall fod gan y person ifanc rai strategaethau i osgoi niwed pan fydd ar goll drwy, er enghraifft, ddefnyddio gwelltyn i gymryd cyffuriau yn lle rhannu arian papur. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y gweithwyr proffesiynol yn teimlo bod y person ifanc yn dal i wynebu risg uchel o niwed a pherygl pan fydd ar goll.

*Meysydd i'w gwella*

6.76 Dywedodd y person ifanc y byddai'n hoffi i'w thad fod yn fwy o ran o'i bywyd a'i bod yn credu y gallai sesiynau cyfryngu teuluol helpu gyda

hyn. Awgrymodd hefyd y gallai ei gweithiwr cymdeithasol wrando mwy arni a deall ei sefyllfa'n well.

6.77 Roedd yr holl weithwyr proffesiynol a'r gofalwyr oedd yn gysylltiedig â'r achos hwn yn cytuno bod pawb angen mwy o eglurder ynghylch pryd mae'n briodol i hysbysu'r heddlu bod y person ifanc 'ar goll' neu'n 'absennol'. Er enghraifft, gofynnodd un o weithwyr cymorth y lleoliad byw â chymorth: '*Allwn ni hysbysu rhywun ei bod ar goll os yw hi allan gyda phobl nad yw hi fod i'w gweld?'* Dywedodd y gofalwyr/gweithwyr cymorth yn y lleoliad byw â chymorth y byddent yn elwa ar gael hyfforddiant ar sut i ymdrin â'r person ifanc ac, yn benodol, ar pryd mae'n briodol i hysbysu'r heddlu ei bod ar goll. Dywedodd y gofalwyr/gweithwyr cymorth hefyd y gallai'r heddlu wneud mwy o ddefnydd o'r MIRAF a/neu fod angen tynnu sylw'r heddlu at y lefelau risg uchel sy'n gysylltiedig â'r achos hwn pan fydd y person yn absennol neu ar goll.

6.78 Roedd y gweithwyr proffesiynol yn teimlo hefyd yr hoffent ddeall yn well beth mae'r Hyb wedi'i wneud mewn perthynas â'r achos hwn a sut mae wedi cyfrannu neu sut y gallai fod wedi cyfrannu. Roedd y ddau weithiwr cymdeithasol hefyd yn teimlo y gellid cael mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r MIRAF. Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol: 'Mae'r rhwystr technegol ond mae'r diwylliant yn ymwneud â'i defnyddio'n broblem hefyd. Mae'n adnodd defnyddiol iawn ond nid yw'n cael ei ddefnyddio ddigon'.

**Astudiaeth achos chwech**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

6.79 Bu'r canlynol yn rhan o'r astudiaeth achos hon:

- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un person ifanc.
- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un gofalwr a oedd yn gweithio yn lleoliad byw â chymorth Llamau.
- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb â dau weithiwr cymdeithasol yr un pryd; un Gweithiwr Cymdeithasol Pobl sy'n Gadael Gofal ac un Cynghorydd Personol Pobl Ifanc, y ddau o dîm 16+ gwasanaethau plant.

*Cyd-destun yr unigolyn*

6.80 Mae'r person ifanc 17 oed yn byw mewn lleoliad byw â chymorth ac yn derbyn gofal o dan orchymyn gofal gwirfoddol.

6.81 Mae'r heddlu wedi'u ei bod ar goll dros drideg o weithiau ers 2014. Fodd bynnag, mae wedi bod ar goll yn llai aml yn ddiweddar ers iddi symud i'w lleoliad byw â chymorth cyfredol a'r tro diwethaf y cofnodwyd iddi fynd ar goll oedd mis Ionawr 2015.

6.82 Roedd y risgiau a wynebai'r person ifanc pan roedd ar goll yn ddifrifol ac yn cynnwys hunan-niweidio ac wynebu cam-fanteisio rhywiol.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

6.83 Dywedodd y person ifanc ei bod wedi cael sesiwn ôl-drafod ar ôl iddi fod ar goll. Roedd hi'n teimlo fod y sesiwn yn nawddoglyd ar y pryd ond o edrych nôl mae'n credu iddi fod o fudd. Cynigiwyd y sesiynau ôl-drafod iddi yn fuan ar ôl iddi fod ar goll ac fe'u cynhaliwyd lle roedd hi'n byw. Roedd y gweithiwr ôl-drafod yn dangos cydymdeimlad ac yn gwrando'n dda a dywedodd ei bod hi'n haws 'siarad am fy nheimladau' gyda'r gweithiwr ôl-drafod na'i gweithiwr cymdeithasol. Cadarnhaodd y gofalwr/gweithiwr byw â chymorth fod y gweithiwr ôl-drafod wedi cynorthwyo'r person ifanc yn amserol pan aeth ar goll a'u bod wedi helpu gan eu bod 'yn rhywun ar ei chyfer hi'n benodol'.

6.84 Dywedodd y ddau weithiwr cymdeithasol eu bod wedi bod i gyflwyniad am y MIRAF a'u bod yn gwybod bod y person ifanc wedi cael sesiwn ôl-drafod ar ôl mynd ar goll o'r blaen. Fodd bynnag, nid oeddynt yn gwybod beth oedd pwrpas na chynnwys y sesiwn. Nid oeddynt yn teimlo cysylltiad â gwaith yr Hyb yn yr achos hwn. Roeddynt wedi edrych ar y wybodaeth am y person ifanc a ddarparwyd gan y MIRAF ond yn gwybod y rhan fwyaf o'r manylion eisoes. Nid oeddynt yn credu bod yr Hyb yn cynnwys 'gwybodaeth o ddydd i ddydd gyfredol, fel manylion am gariadon a'u hymddygiad'. Yn yr un modd, roedd y gweithwyr cymdeithasol yn teimlo nad oedd cyfraniad yr Hyb mewn cyfarfodydd strategaeth ynglŷn â'r person

ifanc yn 'ychwanegu gwerth' gan eu bod eisoes yn gwybod y wybodaeth a rannwyd gan yr Hyb yn y cyfarfod.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

6.85 Dywedodd y person ifanc nad oedd rhaid iddi ailadrodd ei stori nifer o weithiau a bod y wybodaeth briodol gan weithwyr proffesiynol i'w helpu. Dywedodd mai ei gweithiwr cymdeithasol sy'n ei deall orau a'i bod yn gweithio'n dda gyda'i gweithiwr cymorth lle mae'n byw. Fodd bynnag, roedd gan y person ifanc brofiadau negyddol o'r heddlu gan ddweud: 'Roedd yr heddlu yn fy meirniadu, a dweud nad oedden nhw'n wasanaeth tacsi'.

6.86 Roedd y person ifanc yn teimlo bod y gweithwyr cymorth yn ei lleoliad byw â chymorth newydd yn gallu ei chefnogi'n llawer gwell na'r rhai lle'r oedd hi'n byw o'r blaen. Mae'n teimlo bod ei gweithiwr cymorth nawr 'yn debyg i nani, yn ofalgar a chefnogol'.

6.87 Dywedodd y gweithwyr cymdeithasol fod cyfraniad yr heddlu yn y cyfarfod strategaeth yn fuddiol.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

6.88 Dywedodd y person ifanc ei bod hi'n llai tebygol o fynd ar goll nawr ac mai dim ond pum neu chwe gwaith mae wedi bod ar goll ers symud i'w lleoliad byw â chymorth newydd. Y ffactorau canlynol yw'r rheswm pam ei bod hi'n llai tebygol o fynd ar goll yn ei barn hi:

- Mae ei lleoliad byw â chymorth cyfredol yn llawer tawelach a mwy cefnogol na'i lleoliad blaenorol.
- Mae wedi dechrau siarad â'i mam eto ac nid yw am ei siomi.
- Roedd cariad y ferch yn cael ymweld â hi yn y lleoliad newydd, felly nid oedd hyn yn gymaint o 'ffactor dylanwadu' bellach.

6.89 Roedd y gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cytuno mai'r gweithiwr cymorth yn y lleoliad byw â chymorth yw'r dylanwad unigol mwyaf ar y person ifanc, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd hi'n mynd ar goll eto. Dywedodd y gweithiwr cymorth/gofalwr fod ei chyfraniad hi a chyfraniadau'r gweithiwr ôl-drafod a'r gweithiwr cymdeithasol wedi arwain at y person ifanc yn gorffen ei pherthynas â'i chariad

blaenorol, yr oedd yn arfer mynd ar goll i dreulio amser ag ef. Awgrymodd y gweithiwr cymorth/gofalwr hefyd fod y person ifanc yn llai tebygol o fynd ar goll nawr gan ei bod yn gwisgo tag ar hyn o bryd.

6.90 Dywedodd y gweithwyr cymdeithasol fod y person ifanc yn llai tebygol o wynebu perygl a niwed wrth fynd ar goll nawr.

6.91 Roedd y gweithiwr cymorth/gofalwr yn teimlo bod yr Hyb wedi cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar ei gallu i gefnogi'r person ifanc. Dywedodd fod yr Hyb wedi ei hyfforddi'n effeithiol ynglŷn â phryd mae'n briodol hysbysu'r heddlu bod person ifanc 'ar goll' yn hytrach nag 'absennol' a bod hyn wedi helpu i wella cysylltiadau gyda'r heddlu gan fod y broses hysbysu'n fwy priodol. Roedd yn teimlo hefyd bod agwedd yr heddlu at bobl ifanc ar goll wedi gwella yn sgil cyfraniad yr Hyb gan nad ydynt yn debygol bellach o ddweud *'o wel, chi yw ei gofalwr, mae'n mynd ar goll drwy'r amser, cerwch chi i chwilio amdani'.* Felly, roedd yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r person ifanc yn edrych ar y sefyllfa yn yr un ffordd yn awr.

*Meysydd i'w gwella*

6.92 Awgrymodd y ddau weithiwr cymdeithasol y byddai'n fuddiol pe bai ganddynt well dealltwriaeth o waith yr Hyb a sut y gall gyfrannu at amddiffyn pobl ifanc sy'n mynd ar goll. Roeddynt yn teimlo hefyd y gallai gwaith yr Hyb yn yr achos hwn fod wedi bod yn fwy cydgysylltiedig er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

6.93 Ni awgrymodd y person ifanc na'r gweithiwr cymorth/gofalwr unrhyw feysydd i'w gwella o ran y ffordd roedd yr Hyb yn ymwneud â'r achos.

*Astudiaeth achos saith*

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

6.94 Bu'r canlynol yn rhan o'r astudiaeth achos:

- Cynhaliwyd cyfweliad ffôn â mam y person ifanc.
- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb â gweithiwr cymdeithasol y person ifanc.
- Nid oedd y person ifanc am gymryd rhan yn yr ymchwil.

*Cyd-destun yr unigolyn*

6.95 Mae'r person ifanc 14 oed yn byw gartref gyda'i mam, llystad a'i brodyr a'i chwiorydd. Mae wedi bod ar goll wyth gwaith ers 2014 a'r tro diwethaf oedd mis Ebrill 2014.

6.96 Mae'r MIRAF yn cofnodi'r ffactorau risg canlynol ar gyfer y person ifanc: camddefnyddio sylweddau, dwyn, perthynas gyda chariad sy'n ei rheoli. Mae gan ei thad biolegol broblemau iechyd meddwl hefyd.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

6.97 Nid oedd y fam yn siŵr a oedd ei merch wedi cael sesiwn ôl-drafod o'r blaen. Dywedodd fod cymaint o weithwyr proffesiynol yn ymwneud ag achos ei merch nad oedd yn gwybod a oedd un ohonynt yn weithiwr ôl-drafod. Fodd bynnag, dywedodd ei bod wedi siarad â rhywun o'r tîm plant coll ar y ffôn a'u bod yn 'neis a chefnogol, gan ei bod hi'n braf gwybod nad ydych chi ar eich pen eich hun'.

6.98 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol ei bod yn ymwybodol o'r ôl-drafod a bod y MIRAF ar gael ar gyfer yr achos hwn. Dywedodd:

> 'Mae wedi helpu a chyfrannu at yr asesiad ac mae'n ddogfen gryno a ddefnyddir i egluro'r cyfnod llawn o fod ar goll yn lle gorfod chwilota drwy nodiadau achos a chofnodion ar y system'.

6.99 Fodd bynnag, dywedodd y gweithiwr cymdeithasol nad oedd tîm CAMHS wedi cyfrannu at y MIRAF.

6.100 Dywedodd hefyd fod yr Hyb wedi cyfrannu at y broses o gynllunio gofal ar lefel anffurfiol drwy alwadau ffôn, diweddariadau a rhannu asesiadau risg. Dywedodd ei bod wedi trafod ei safbwyntiau gyda staff yr Hyb ar sawl achlysur a'u bod wedi cysylltu â hi i drafod achos y person ifanc pan ddechreuodd ymdrin â'r achos. Roedd hi'n credu bod y gweithiwr ôl-drafod o gymorth gan fod hyn yn dangos i'r person ifanc fod rhywun yn poeni amdani.

*Gweithwyr proffesiynol eraill a gyfrannodd*

6.101 Dywedodd y fam ei bod wedi cael profiad cadarnhaol iawn gyda'r holl weithwyr yn yr achos hwn gan ddweud 'Does gen i ddim cwynion a

dweud y gwir. Dwi'n credu bod pawb yn rhoi o'u gorau'. Yn arbennig, dywedodd:

> 'Mae'r ysgol wedi bod yn wych a'r pennaeth blwyddyn yn arbennig. Dwi mor falch eu bod nhw'n dal ati – mae gen i rwydwaith cymorth. Maen nhw wedi bod yn eithriadol o dda'.

6.102 Dywedodd hefyd fod yr ysgol yn ymwybodol iawn o sefyllfa'r person ifanc ac yn ymwybodol o'r 'darlun cyfan'. Dywedodd fod yr heddlu wedi bod o gymorth mawr a'u bod yn dweud 'mai dyma yw eu gwaith a'u bod wastad yno i mi'.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

6.103 Nid oedd y fam yn gwybod pa mor debygol yw hi y bydd ei merch yn mynd ar goll eto a dywedodd 'dydyn ni ddim yn gwybod sut eith pethau'.

6.104 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol fod y gweithiwr ôl-drafod wedi helpu'r person ifanc i ddeall peryglon mynd ar goll, ond na newidiodd hyn ymddygiad y person ifanc na'r tebygolrwydd o fynd ar goll. Nid oedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod y prif reswm yr oedd y person ifanc yn mynd ar goll wedi'i ddatrys; roedd y person ifanc yn dal i fod mewn perthynas â chariad oedd yn ei rheoli, a'i cham-drin o bosibl. Felly, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn credu y bydd hi'n debygol iawn y bydd y person ifanc yn mynd ar goll eto yn y dyfodol.

*Meysydd i'w gwella*

6.105 Dywedodd y fam ei bod hi'n anodd cael gafael ar weithiwr cymdeithasol ei merch ar brydiau ac y gallai'r cyfathrebu rhyngddynt fod yn well. Yn arbennig, roedd hi'n teimlo y gallai'r gwasanaethau cymdeithasol awgrym gweithgareddau i dynnu sylw ei merch.

6.106 Awgrymodd y gweithiwr cymdeithasol y dylid cynnwys y wybodaeth a gasglwyd gan yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda'r person ifanc ar y MIRAF, yn enwedig gwybodaeth CAMHS. Awgrymodd hefyd nad yw'r MIRAF wedi'i ymgorffori'n llawn mewn ymarfer proffesiynol eto nac yn cael ei ddefnyddio cymaint ag y gallai. Nododd y gweithiwr cymdeithasol fwlch mewn gwasanaethau a allai ddarparu cymorth

priodol i'r person ifanc hefyd gan nad oedd gwasanaeth arbenigol ar gael y gallai atgyfeirio'r person ifanc iddo a fyddai'n ei helpu gyda'r berthynas wael roedd hi ynddi. Nid oedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod y gweithiwr ôl-drafod wedi gwerthfawrogi hyn yn llawn fel un o'r prif resymau pam bod y person ifanc yn mynd ar goll.

**Astudiaeth achos wyth**

*Cyfranogwyr yr ymgynghoriad*

6.107 Bu'r canlynol yn rhan o'r astudiaeth achos hon:

- Cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb ag un gweithiwr cymdeithasol.
- Nid oedd y person ifanc am gymryd rhan yn yr ymchwil.

*Cyd-destun yr unigolyn*

6.108 Mae'r person ifanc 17 oed yn derbyn gofal ac yn byw gyda'i modryb ar hyn o bryd, er iddi gael cyfle i fyw mewn lleoliad byw â chymorth. Arferai fynd ar goll yn aml gan ei bod yn aros allan fwy na thair noson yr wythnos, gan dorri rheolau'r lleoliad byw â chymorth. Aeth ar goll 13 gwaith rhwng mis Medi 2014 a mis Ebrill 2015, er mai yn nhŷ aelod o'r teulu oedd hi ran amlaf.

6.109 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol nad oedd yr heddlu yn mynd i'w chasglu gan eu bod yn gwybod lle roedd hi ran amlaf, ond ei bod wedi dechrau mynd ar goll yn amlach gan nad oedd dim yn digwydd o ganlyniad i hynny.

6.110 Mae'r MIRAF yn datgan bod yna risgiau cymedrol yn gysylltiedig â'r person ifanc yn mynd ar goll, yn cynnwys y risg o gamddefnyddio sylweddau.

*Cyfraniad yr Hyb at yr achos hwn*

6.111 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol fod y person ifanc wedi cael sesiwn ôl-drafod ar ôl iddi fod ar goll o'i lleoliad gofal maeth a bod y gweithiwr ôl-drafod wedi mynychu cyfarfod strategaeth ynglŷn â'r person ifanc hefyd. Dywedodd fod y cymorth gan y gweithiwr ôl-

drafod yn fuddiol i'r person ifanc gan ei fod yn darparu rhywun a fyddai'n gwrando arni a rhywun a fyddai'n 'bleidiol i'w hachos'.

6.112 Roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi defnyddio'r MIRAF yn yr achos hwn ac yn gweld y wybodaeth yn fuddiol wrth lunio ei hasesiadau ei hun.

*Effaith yr Hyb ar y plentyn neu'r person ifanc*

6.113 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol fod y person ifanc yn annhebygol o fynd ar goll eto gan ei bod yn byw lle mae'n dymuno bod - yn nhŷ ei modryb. Roedd hi'n credu bod y symudiad i dŷ ei modryb wedi digwydd yn gyflymach diolch i ymyrraeth y gweithiwr ôl-drafod ac yn hyn o beth gellir dweud bod ymyrraeth yr Hyb wedi bod yn rhannol gyfrifol am leihau nifer yr achlysuron y mae'r person ifanc yn mynd ar goll.

6.114 Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod cyfraniad yr Hyb yn ddefnyddiol gan ei bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y person ifanc drwy'r gweithiwr ôl-drafod a'r MIRAF na fyddai'n gallu ei chael fel arall. Er enghraifft, roedd y gweithiwr ôl-drafod yn gallu darparu mwy o wybodaeth am y sawl yr oedd y person ifanc yn cymdeithasu â nhw pan oedd ar goll. Fodd bynnag, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod ei chyngor a'i harweiniad yn mynd yn groes i gyngor ac arweiniad y gweithiwr ôl-drafod ar brydiau ac nad oedd hyn yn helpu o ran cyflwyno neges gyson i'r person ifanc ynglŷn â lle oedd y lle gorau iddi fyw.

*Meysydd i'w gwella*

6.115 Dywedodd y gweithiwr cymdeithasol y byddai'n fuddiol pe byddai hi a gweithwyr proffesiynol eraill yn cael hyfforddiant ar blant a phobl ifanc coll a'r ffordd orau o ymateb i hyn. Er enghraifft, dywedodd nad oedd yn deall y gwahaniaeth rhwng absennol a choll.

# 7. Atodiad 2: Model rhesymegol

| Cyfraniadau, yn arwain at… ➔ | Gweithgareddau, yn arwain at… ➔ | Allbynnau, yn arwain at… ➔ | Effaith, yn arwain at… ➔ | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyllid (dros dair blynedd):***<br>• Y Gronfa Loteri Fawr: £543,202<br>• Heddlu Gwent: £219,378<br>• Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan: £127,264<br>• Cyngor Dinas Casnewydd: £200,085<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili: £58,135<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: £49,681<br>• Cyngor Sir Blaenau Gwent: £23,024<br>• Cyngor Sir Fynwy: £18,447<br>• Llywodraeth Cymru: £10,800<br><br>***7 gweithiwr Hyb***:<br>• Yr Heddlu<br>• Gwasanaethau cymdeithasol<br>• Iechyd<br>• Addysg<br>• Rheolwr<br><br>***Gwasanaeth ôl-drafod***<br>Gwasanaeth ôl-drafod annibynnol gan Llamau | ***Dadansoddi gwybodaeth a rhannu gwybodaeth***<br>• Sgrinio adroddiadau'r heddlu ar bob plentyn a pherson ifanc y cofnodwyd eu bod ar goll/absennol a chynhyrchu Asesiadau Risg a gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau priodol.<br>• Casglu gwybodaeth a chynhyrchu asesiadau risg cynhwysfawr i'w defnyddio gan weithwyr rheng flaen wrth ymateb i achos o blentyn coll neu absennol.<br>• Nodi tueddiadau a phroffiliau problemau plant coll a darparu'r wybodaeth hon i randdeiliaid perthnasol.<br>• Hysbysu gwasanaethau cymdeithasol lleol a'r heddlu am amlder a difrifoldeb yr 'achosion coll' lle bo'n briodol.<br>***Cyfrannu at reoli achosion***<br>• Cyfrannu at y broses o gynllunio gofal i 'blant sy'n derbyn gofal' a'r rhai yr ystyrir eu bod 'mewn angen' | ***Cysylltiedig â gwybodaeth***<br>• Nifer adroddiadau'r heddlu ar blant coll sydd wedi'u sgrinio<br>• Nifer y cofnodion achos cyfredol<br>• Nifer yr asesiadau risg a, lle bo'n berthnasol, nifer yr ymweliadau cartref cysylltiedig/newidiadau i leoliadau<br>• Nifer yr adroddiadau sy'n nodi tueddiadau a phroblemau allweddol<br><br>***Cysylltiedig â chynllunio gofal***<br>• Nifer y sesiynau ôl-drafod annibynnol gyda phlant a fu ar goll<br>• Nifer y cyfarfodydd strategaeth a fynychwyd<br>• Nifer y troeon pan gyfrannodd tîm yr Hyb at gyfarfodydd cynllunio gofal<br><br>***Hyfforddiant i ymarferwyr***<br>• Nifer y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant<br>• Nifer yr unedau preswyl sydd | ***Rhanddeiliaid[15] sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll***<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth well o'r problemau sy'n gysylltiedig â phlant coll<br>• Gwybodaeth a sgiliau gwell i atal plant rhag mynd ar goll<br>• Gwybodaeth a sgiliau gwell i ymateb i blant sy'n mynd ar goll a darparu'n briodol ar eu cyfer<br>• Gwybodaeth a sgiliau gwell i atal plant rhag mynd ar goll dro ar ôl tro<br>• Agweddau gwell at blant sydd mewn perygl o fynd ar goll neu sy'n mynd ar goll<br>• Agweddau gwell at blant sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro<br>• Gwybodaeth well a chywirach am blant sy'n mynd ar goll<br>***Plant sy'n mynd ar goll:***<br>• Llai tebygol o fynd ar goll dro ar ôl tro<br>• Bod â'r wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ymddygiad i aros yn ddiogel pan fyddant ar goll | ***Plant sy'n mynd ar goll neu sydd mewn perygl o fynd ar goll:***<br>• Gostyngiad yn nifer y plant coll<br>• Gostyngiad yn nifer y plant coll sy'n profi niwed pan fyddant ar goll<br>• Gostyngiad yn nifer y plant sy'n rhedeg i ffwrdd fwy nag unwaith<br>• Gostyngiad yn nifer y plant sy'n cyflawni trosedd neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol pan fyddant ar goll<br>• Plant sy'n mynd ar goll wedi gwella eu presenoldeb yn yr ysgol<br>• Plant sy'n mynd ar goll wedi gwella eu cyrhaeddiad yn yr ysgol<br>• Gostyngiad yn nifer y plant coll sy'n profi camfanteisio rhywiol<br>• Gostyngiad yn nifer y plant coll sy'n cael eu masnachu<br>• Gostyngiad yn nifer y plant sy'n mynd ar goll sydd â |

[15] Mae rhanddeiliaid yma'n cynnwys: gweithwyr cymdeithasol, athrawon, yr heddlu, ymarferwyr iechyd, gweithwyr maeth.

| Cyfraniadau, yn arwain at… ➔ | Gweithgareddau, yn arwain at… ➔ | Allbynnau, yn arwain at… ➔ | Effaith, yn arwain at… ➔ | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| ***Hyfforddiant i weithwyr Hyb ar:***<br>• MIRAF<br>• Protocol Gwent<br>• Porth MIRAF<br>• Ôl-drafod | • Atgyfeirio pobl ifanc sydd wedi bod ar goll at weithiwr ôl-drafod Llamau<br><br>***Hwyluso cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau***<br>• Gydag amser, mae'r prosiect yn gobeithio hyfforddi pobl ifanc fel 'mentoriaid cymheiriaid'<br><br>***Cyfweliadau ôl-drafod Llamau***<br>• Ymweld â phlant yr hysbyswyd yr heddlu eu bod ar goll ar ôl iddynt ddychwelyd a chynnal cyfweliad ôl-drafod annibynnol. Nod y rhain yw rhoi cyfle i blant a phobl ifanc drafod y rhesymau pam aethant ar goll mewn amgylchedd cyfrinachol, therapiwtig a chefnogol a gallent gynnwys cyfryngu â'r teulu<br>• Rhoi cyfle i blant a phobl ifanc drafod y rhesymau pam aethant ar goll mewn amgylchedd cyfrinachol, therapiwtig a chefnogol a allai gynnwys cyfryngu â'r teulu<br>• Darparu eiriolaeth i helpu plant a phobl ifanc i ddatrys problemau sy'n achosi iddynt redeg i ffwrdd a'u helpu i gael gwasanaethau | wedi cael gwybod am 'Brotocol Gwent' a'r ffordd mae'n wahanol i Brotocol "Cymru Gyfan"<br>• Nifer yr ysgolion sydd wedi derbyn cymorth gyda'u rhaglenni addysg<br><br>***Hyfforddiant a chymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd***<br>• Nifer y bobl ifanc sydd wedi derbyn hyfforddiant i fod yn fentoriaid cymheiriaid<br>• Nifer y palnt ysgol sy'n derbyn gwybodaeth gan yr Hyb<br>• Nifer y bobl ifanc, gofalwyr a rhieni sy'n mynychu gweithdai | • Bod â'r wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ymddygiad i leihau'r tebygolrwydd o gyflawni trosedd neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol pan fyddant ar goll<br>• Wedi gwella eu presenoldeb yn yr ysgol<br>• Wedi gwella eu cyraeddiadau yn yr ysgol<br>• Eu hanghenion wedi'u diwallu yn amserol a phriodol i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol eu bod yn mynd ar goll<br><br>***Plant sydd mewn perygl o fynd ar goll:***<br>• Llai tebygol o fynd ar goll<br>• Eu hanghenion wedi'u diwallu yn amserol a phriodol i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol eu bod yn mynd ar goll | chynllun amddiffyn plant<br>• Gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ar goll<br><br>***I gyllidwyr a threthdalwyr:***<br>• Mae'r manteision ariannol yn fwy na'r costau sy'n sicrhau gwell gwerth am arian i gyllidwyr a threthdalwyr |

| Cyfraniadau, yn arwain at… ➔ | Gweithgareddau, yn arwain at… ➔ | Allbynnau, yn arwain at… ➔ | Effaith, yn arwain at… ➔ | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | cymorth priodol, e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) cwnsela<br>• Cynnig cysylltiad cyson pe byddent yn rhedeg i ffwrdd eto[14]<br><br>***Hyffordiant i ymarferwyr***<br>• Darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n hysbysu'r heddlu, cofnodi ac ymateb i blant coll ynglŷn â'r hyn y mae'r tîm aml-asiantaeth yn ei wneud, pryd a sut<br>• Gweithio gyda chynrychiolwyr o'r unedau preswyl i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o Brotocol Gwent<br>• Cyfrannu at raglenni addysg ysgolion<br><br>***Hyfforddiant a chymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd***<br>• Cymryd rhan mewn gweithdai/sesiynau grŵp gyda phobl ifanc a gofalwyr neu rieni | | | |

[14] Yn ôl y plant a holwyd roedd hwn yn un o agweddau pwysicaf ond absennol yr ymateb blaenorol, *Cais y Loteri Fawr*, tud. 24